

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Craffu Partneriaethau

Dyddiad: 1 Tachwedd 2019

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU, DYDD IAU, 7 TACHWEDD 2019** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**CYNHELIR SESIWN BRIFFIO AR GYFER YR HOLL AELODAU ETHOLEDIG AM
9.15 A.M. YN UNION O FLAEN Y CYFARFOD**

AGENDA

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y
RHAN HON O'R CYFARFOD**

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 5 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar 16 Medi 2019 (copi ynghlwm).

5 AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU (Tudalennau 15 - 24)

Ystyried dogfen ymgynghori gyhoeddus (copi ynghlwm) i roi cyfle i'r Pwyllgor gyfrannu syniadau tuag at ddatblygiad Strategaeth Amgylcheddol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

10.05 a.m. – 10.45 a.m.

6 CYLLIDEBAU CEFNOGAETH AR GYFER POBL AG ANGHENION CYMORTH A GOFAL CYMWYS (Tudalennau 25 - 30)

Ystyried adroddiad gan yr Uwch Reolwr, Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (copi ynghlwm) yn rhoi gwybodaeth am y cynnydd a wnaed o ran datblygu, hyrwyddo a lledaenu cyllidebau cymorth i bobl sy'n gymwys i'w derbyn.

10.45 a.m. – 11.30 a.m.

~~~~~ **EGWYL 11.30 a.m. – 11.45 a.m.** ~~~~~

**7 UN LLWYBR MYNEDIAD AT DAI (SARTH)** (Tudalennau 31 - 86)

Ystyried adroddiad ar y cyd gan y Swyddog Arweiniol, Tai Cymunedol, a'r Prif Weithredwr, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn (copi ynghlwm) ar effeithiolrwydd y bartneriaeth newydd o ran helpu pobl i gael llety o fewn amser resymol.

**11.45 a.m. – 12.30 p.m.**

**8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL** (Tudalennau 87 - 110)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor ac yn diweddarau aelodau ar faterion perthnasol.

**12.30 p.m. – 12.40 p.m.**

**9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU**

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

**12.40 p.m. – 12.45 p.m.**

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd)

Joan Butterfield  
Gareth Davies  
Hugh Irving  
Pat Jones  
Christine Marston

Y Cynghorydd Emrys Wynne (Is-Gadeirydd)

Melvyn Mile  
Peter Scott  
Rhys Thomas  
David Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, TY RUSSELL, FFORDD CHURTON, Y RHYL, Dydd Llun, 16 Medi 2019 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Gareth Davies, Hugh Irving, Pat Jones, Christine Marston a/ac Peter Scott

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau (NS), Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (DT), Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (NK), Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG), Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Arbenigol (AP), Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant (KIE), Cydlynnydd Craffu (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

#### Hefyd yn y cyfarfod:

Y Cyngorydd Bobby Feeley, y Cyngorydd Tony Thomas a'r Cyngorydd Mark Young (Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel)

#### Hefyd yn bresennol ar ran BIPBC:

Bethan Jones – Cyfarwyddwr Rhanbarth Canolog

Sue Wynne – Rheolwr Gwasanaethau Clinigol, Rhanbarth Canolog

Sara Hammond-Rowley – Pennaeth Seicoleg Plant a Therapiau Seicolegol

#### Arsylwyr:

Y Cyngor. Rachel Flynn a Tony Thomas

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorwr(wyr) Melvyn Mile, Rhys Thomas, David Williams a/ac Emrys Wynne

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Roedd y Cyngorydd Gareth Lloyd Davies yn datgan cysylltiad personol yn Eitem 7 (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a Gwasanaethau Niwroddatblygiad) gan ei fod yn gweithio i BIPBC.

Roedd y Cyngorydd Rachel Flynn (arsylwr) yn datgan cysylltiad personol yn Eitem 7 (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a Gwasanaethau Niwroddatblygiad) gan fod ei mab wedi'i atgyfeirio ar gyfer niwroddatblygiad gan CAMHS.

### **3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

### **4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cafodd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2019 eu cyflwyno.

#### **Materion yn Codi -**

Tudalen 9 – gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad ar y cynllun peilot tai. Cadarnhaodd y Cydlynnydd Craffu ei fod ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth a byddai diweddariad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ganol-2020, fel rhan o Strategaeth Digartrefedd ac adroddiad Cynllun Gweithredu 2017-2021.

Tudalen 13 – Cadarnhaodd y Cydlynnydd Craffu bod holl wylanod wedi eu diogelu a bod Cynllun Rheoli wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Gorffennaf 2019 gyda nifer o gamau gweithredu.

***PENDERFYNWYD** yn amodol ar yr uchod i dderbyn a chadarnhau cofnodion y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2019 fel cofnod cywir.*

**Trafododd y Pwyllgor yr eitem fusnes ganlynol, eitem rhif 5, yn ei swyddogaeth fel Pwyllgor Archwilio Trosedd ac Anhrefn dynodedig y Cyngor yn unol â Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder adrannau 19 a 20.**

### **5 DIWEDDARIAD BLYNYDDOL Y BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL AR GYFER 2018-19**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Chymunedau Diogel, y Cynghorydd Mark Young yr adroddiad (dosbarthwyd yn flaenorol) i gael sylwadau'r Pwyllgor ar weithgaredd y Cydbartneriaethau Diogelwch Cymuned yn 2018-19 a'r Cynllun Gweithgaredd Lleol a Rhanbarthol 2019-20. Roedd y Cynghorydd Young hefyd yn Gadeirydd y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru rhanbarthol hefyd.

Dywedodd y Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Cymunedol 12 mlynedd yn ôl, unwyd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) a Chyngor Sir Ddinbych (CSDd), gyda CBSC yn gweithredu fel y prif gyflogwr. Roedd yr Adran Gwella Busnes a Moderneiddio yn arwain o ran rheoli'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn Sir Ddinbych.

Rhoddodd y Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Cymunedol eglurhad o'r ystadegau yn yr adroddiad.

Roedd trefn cyfarfod y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cynnwys:

- Grŵp Llywio Strategol - cyfarfod deirgwaith y flwyddyn
- Grŵp Tasg Ymddygiad Gwrthgymdeithasol - a gynhelir yn fisol

- Grwpiau Tasg a Gorffen – cynhelir fel bo'r angen

Roedd y tair blaenoriaeth Partneriaeth Diogelwch Cymunedol 2018-2019 fel a ganlyn:

- Blaenoriaeth 1 - lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal leol a rhanbarthol
- Blaenoriaeth 2 - lleihau aildrosedd – blaenoriaeth genedlaethol/ranbarthol
- Blaenoriaeth 3 – blaenoriaethau lleol

Roedd gan bob maes blaenoriaeth nifer o ddangosyddion perfformiad i fonitro cynnydd a thueddiadau troseddau. Adolygwyd yr ystadegau yn chwarterol yng nghyfarfodydd y Grŵp Llywio Strategol, gan weithredu ar unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg.

Wrth drafod, codwyd y materion canlynol:

- Ailddioddefwyr trosedd – oedd yna dueddiad arbennig? Cadarnhaodd y Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Cymunedol y byddai'n casglu manylion ac yn dosbarthu i aelodau, ond roedd dulliau newydd o adrodd a chyfrif digwyddiadau wedi cael effaith ar y ffigyrau hyn.
- Oedd ystadegau ar gael ar gyfer trosedd gwledig – dywedodd y Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Cymunedol nad oedd ganddi'r ystadegau wrth law ond bu'n gweithio gyda'r tîm trosedd gwledig. Byddai'n casglu'r wybodaeth a'i dosbarthu i aelodau.
- Roedd yna ychydig o feirniadaeth ynglŷn â'r heddlu ac nad oeddent yn ymchwilio bwrgheriaeth preswyl. Roedd rhif trosedd at ddibenion yswiriant yn cael ei roi allan ond ddim yn arfer cael ei ymchwilio. Fodd bynnag, roeddent yn gweithredu nifer o fentrau a anelwyd at helpu trigolion i leihau'r risg o fod yn darged trosedd e.e. y fenter 'Sbarduno' oedd yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol at ddiben atgoffa pobl i gau a chloi pob drws a ffenestr i geisio osgoi bwrghlariaid sy'n bachu cyfle.
- Problem pobl ifanc heb oruchwyliaeth rhiant rhwng 3.00pm (diwedd y diwrnod ysgol) a rhieni yn dychwelyd o'r gwaith fel arfer tua 5.00pm Gallai hyn achosi problemau.
- Cadarnhawyd y byddai'r Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Mark Young yn cwrdd â'r Prif Arolygydd ac y byddai'n codi'r pryderon gydag ef ac yn gofyn iddo amlygu'r meysydd hyn yn ei gyflwyniad i sesiwn Briffio'r Cyngor ym mis Tachwedd 2019.
- Eglurwyd bod nifer fawr o bartneriaid, gan gynnwys yr heddlu wedi mynychu'r cyfarfodydd CSP a'u bod yn hynod ragweithiol.
- Roedd llinellau cyffuriau yn bryder mawr a chadarnhaodd y Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Cymunedol fod holl asiantaethau ar draws Gogledd Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i liniaru'r mater hwn.
- Roedd meddiannu cartrefi hefyd wedi'i grybwyll ar gynnydd, ac eto roedd pob asiantaeth yn gweithio gyda'i gilydd mewn perthynas â'r mater hwn.
- Roedd trosedd casineb wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ond roedd yn ymddangos fel petai mewn lleoliadau penodol e.e. ysbytai, gorsafoddedd heddlu a'r Ganolfan Ddiwylliannol yn y Rhyl.

Byddai'r cydlynwyr rhanbarthol newydd arfaethedig yn canolbwyntio'n fawr ar eu gwaith o amgylch yr agwedd arbennig hon o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

- Roedd pobl yn cael eu hannog i roi gwybod am unrhyw weithgareddau amheus fel yr adroddwyd, adroddir ar y canlyniadau mwy cadarnhaol.
- Roedd gwerthu adeilad Neuadd Morfa yn y Rhyl oedd yn lleoliad i wasanaethau gwirfoddol wedi'i godi fel pryder posibl ar gyfer y dyfodol. A oedd gwasanaethau gwirfoddol i gael eu hadleoli? Cadarnhaodd y Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol y byddai'n codi'r mater gyda Phrif Weithredwr Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych ac adrodd yn ôl i aelodau drwy'r Cydlynwdd Craffu.

Yn dilyn trafodaethau manwl:

**PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor, yn amodol ar yr arsylwadau uchod a darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, naill ai mewn fformat ysgrifenedig neu fel rhan o gyflwyniad Prif Arolygydd Heddlu Gogledd Cymru i sesiwn Briffio'r Cyngor ym mis Tachwedd 2019, cymeradwyo perfformiad y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn ystod 2018-19 a'i gynllun gweithgaredd arfaethedig ar gyfer 2019-20.

## **6 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR DDIOGELU OEDOLION YN SIR DDINBYCH 1 EBRILL 2018 – 31 MAWRTH 2019**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth, y Cynghorydd Bobby Feeley yr Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Oedolion yn Sir Ddinbych 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019 (dosbarthwyd yn flaenorol).

Dros y 12 mis diwethaf, bu ffocws parhaus ar wella cysondeb ac ansawdd gwaith diogelu. Roedd cryn dipyn o waith wedi'i wneud i wella perfformiad yn erbyn dangosydd perfformiad Llywodraeth Cymru o ymholiadau a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith. Er hynny, nid oedd ac ni fyddai'r Awdurdod yn llaesu dwylo yn y maes hwn.

Cafodd Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 gydsyniad brenhinol ym mis Mai 2019, oedd yn diwygio Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ("MCA"). Roedd y diwygiadau'n cyflwyno'r Trefniadau Diogelu Rhyddid newydd (LPS). Nod y Ddeddf yw lleihau'r straen ar y system trefniadau diogelu rhag colli rhyddid ers dyfarniad Gorllewin Swydd Gaer a adroddwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor Craffu.

Roedd prif gyflawniadau yn 2018-19 fel a ganlyn:

- Dyddiau penodol wedi eu sefydlu ar gyfer cyfarfodydd strategaeth cychwynnol yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus.
- Archwiliadau chwarterol ar sampl o achosion diogelu er mwyn sicrhau ansawdd a chysondeb gwaith.
- Cynllun peilot i sefydlu proses rhwng CSDd a'r bwrdd iechyd yn ymwneud ag adborth ar yr argymhellion a nodwyd o ganlyniad i'r broses ddiogelu. Roedd y cynllun peilot yn canolbwyntio ar ddiogelu adroddiadau/nodweddion yn ymwneud ag Uned Ablett. Bydd trosolwg o'r cynlluniau gweithredu diogelu hyn yn parhau'n gyfrifoldeb Craffu Diogelu Corfforaethol o fewn



BIPBC. Cytunir ar adolygiadau a rhan arweinwyr diogelu'r awdurdod lleol yn y cyfarfod strategaeth terfynol.

- Peilota dull o fynd i'r afael ag adroddiadau diogelu yn ymwneud â briwiau pwyso.  
Nod y cynllun peilot oedd sefydlu proses agosach a mwy effeithiol rhwng BIPBC a'r awdurdod lleol.
- Adolygu systemau i reoli ceisiadau Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS) a dderbyniwyd.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Arbenigol bod atgyfeiriadau yn parhau ar gynnydd gyda 9.5% o gynnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd 21% o atgyfeiriadau a dderbyniwyd yn mynd i gyfarfodydd Strategaeth.

Esgeulustod a cham-drin corfforol oedd y mathau mwyaf cyffredin o gamdriniaeth a nodwyd, a oedd yn debyg i dueddiadau cenedlaethol.

Wrth drafod, codwyd y materion canlynol:

- Gofal priodol, yn arbennig amser prydau, os nad oedd person diamddiffyn yn gallu agor y bocsys brechdanau a ddarparwyd.  
Roedd hwn yn bryder a godwyd gan aelodau. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Cynnal Cymunedol y byddai'n codi'r pryder hwn gyda BIPBC
- Symud preswlydd i le diogel pan oedd problem gyda lleoliad wedi'i nodi yn ystod archwiliad – oedd yna amserlen?  
Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Cynnal Cymunedol os oedd unigolyn yn gallu, gallent ddewis aros yn y lleoliad. Os nad oeddent yn gallu yna cysylltir â'r Atwrneiaeth os oedd yna un, neu cynhelir Cyfarfod Penderfyniad Budd Pennaf. Roedd Gweithwyr Cymdeithasol Arbenigol, Seiciatryddion a Seicolegwyr yn asesu pa un a oedd gan unigolyn gapasiti ai peidio
- Roedd swyddogion yn amlinellu'r broses a ddilynir ar ôl derbyn honiad o gamdriniaeth
- Roedd perfformiad Sir Ddinbych o ran delio gyda cham-drin honedig yn cymharu ag awdurdodau cyhoeddus eraill yng Nghymru yn yr un modd â'i berthynas gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol.  
Roedd dau dîm adnodd cymunedol iechyd a gofal cymdeithasol wedi eu sefydlu yn Sir Ddinbych hyd yma. Roedd y berthynas gyda'r timau hyn yn dda yn gyffredinol, gyda staff yn gweithio tuag at gyflawni nodau cyffredin;
- Cadarnhaodd Swyddogion bod y posibilrwydd o gyflwyno achrediad 'dyfarniad' i gartrefi gofal yn cael ei ystyried fel rhan o drefn rheoliad cenedlaethol ar gyfer sefydliadau o'r fath.
- uchelgais y Gwasanaeth oedd cyflawni canlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaeth, tra'n lleihau'r nifer o achosion o gam-drin honedig.  
Fodd bynnag, roedd y ffaith bod honiadau o gam-drin yn cael eu cofrestru yn ei hun yn gadarnhaol gan ei fod yn golygu bod defnyddwyr gwasanaeth a/neu eu gofawyr yn gwybod ac yn fodlon rhoi gwybod am honiadau. Dylai hyn yn ei hun helpu i atal cyflawnwyr trosedd yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD** yn amodol ar y sylwadau uchod:

- (i) bod y Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad a chydnabod pwysigrwydd ymagwedd gorfforaethol at ddiogelu oedolion mewn perygl a chyfrifoldeb y Cyngor i weld hyn fel maes blaenoriaeth allweddol; a

(ii) bod unrhyw siartiau sydd wedi eu cynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys yr union nifer yn ogystal â ffigyrau canran.

## **7 GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL PLANT A PHOBL IFANC A GWASANAETHAU NIWRO-DDATBLYGIAD**

Roedd y Cynghorydd Gareth Lloyd Davies yn datgan cysylltiad personol yn Eitem 7 (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a Gwasanaethau Niwroddatblygiad) gan ei fod yn gweithio i BIPBC.

Roedd y Cynghorydd Rachel Flynn (arsylwr) yn datgan cysylltiad personol yn Eitem 7 (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a Gwasanaethau Niwroddatblygiad) gan fod ei mab wedi'i atgyfeirio ar gyfer niwroddatblygiad gan CAMHS.

Yn bresennol i gyflwyno'r adroddiad ar lafar ar Wasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a Glasoed (CAMHS) a Gwasanaethau Niwroddatblygiad o BIPBC oedd:

Bethan Jones, Cyfarwyddwr Ardal Canolog  
Sue Wynne, Rheolwr Gwasanaeth Clinigol, Ardal Ganolog, a  
Sara Hammond-Rowley, Pennaeth Seicoleg Plant a Therapiau Seicolegol

Cyflwynodd Bethan Jones, Cyfarwyddwr Ardal, Canolog y cyflwyniad ac amlinellodd yr amcanion sef:

- Rhoi trosolwg o Wasanaethau Arbenigol CAMHS a Niwroddatblygiad i blant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych wedi'i gysylltu â dull rhanbarthol BIPBC;
- Amlinellu'r weledigaeth – dull systemau cyfan – ac amlygu gwaith partneriaeth / cydbrosiectau.

Amlinelliad o'r sylw presennol i iechyd meddwl yn y cyfryngau - y budd a'r canlyniadau posibl nas fwriadwyd:

Manteision -

- Mwy o ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ymhlith y cyhoedd
- Mwy o ymgyrchu
- Llai o stigma, a
- Mwy o bobl yn dod ymlaen i ofyn am gymorth

Canlyniadau posibl nas fwriadwyd -

- Mwy o bobl yn gofyn am gymorth ar gyfer trallod 'arferol' oedd yn arwain at gynnydd yn y galw ar gyfer problemau nad oedd bob amser angen cymorth arbenigol
- Gall y sawl â phroblemau iechyd meddwl sylweddol / salwch meddwl deimlo eu bod yn cael eu heithrio, roedd rhai yn teimlo bod y ffocws cynyddol ar "les" yn tansilio difrifoldeb y problemau iechyd meddwl "gwirioneddol" a gallai yn anfwriadol leihau mynediad i'r sawl oedd ei angen fwyaf
- Roedd mwy o wasanaethau yn disgrifio eu hunain yn canolbwyntio ar iechyd meddwl o bosibl yn arwain at ormod o wasanaethau yn gorgyffwrdd a dryswch.

Roeddent yn egluro'r gwahaniaeth rhwng Gofal Sylfaenol a Gofal Eilaidd.

Prif swyddogaethau CAMHS oedd:

- Integreiddio
  - ✓ Timau Amlddisgyblaethol
  - ✓ Swyddogaethau
- Un Pwynt Mynediad
- Aseiad a Thriniaeth
- Argyfwng
- Gweithio gyda phartneriaid - Ymyrraeth Gynnar ac Ataliad

Roedd dull system gyfan nawr yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau CAMHS gan y teimlwyd bod angen canolbwyntio ar bob agwedd o CAMHS i sicrhau fod popeth yn cael ei gymryd i ystyriaeth. Byddai canolbwyntio'n benodol ar gyflawni targedau yn gwneud anghymwynas â phlant a phobl ifanc oedd angen cymorth mewn argyfwng.

Bu heriau yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf o ran recriwtio staff o ganlyniad i'r cynnydd yn y galw. Roedd hon yn broblem genedlaethol.

Roedd ymgyrch recriwtio wedi'i gynnal yn ystod y 12 mis diwethaf a datblygwyd swyddi hyfforddiant newydd i ddenu gweithwyr proffesiynol i CAMHS. Roedd yr ymgyrch recriwtio hwn wedi bod yn llwyddiannus gyda 30% ychwanegol o staff yn ymuno â'r tîm oedd yn dechrau yn eu swyddi ar hyn o bryd. Byddai'r staff ychwanegol yn galluogi cyrraedd y 4 wythnos ar draws holl amseroedd aros ac aseidiadau arferol. Roedd ymgyrchoedd recriwtio ychwanegol yn creu diddordeb mewn swyddi a rhagwelir y sefydlir yn llawn erbyn diwedd Mawrth 2020.

Yn ystod trafodaeth fanwl, codwyd y pwyntiau canlynol:

- Os oedd yna argyfwng, cadarnhawyd y byddai'r unigolyn yn derbyn cymorth a thriniaeth ar unwaith ac ni ddisgwylir iddynt aros.  
Byddai atgyfeiriadau nad ydynt yn argyfwng yn amodol ar gael eu rhoi ar restr aros, ond y nod oedd lleihau'r amser yr oedd unigolion yn dreulio ar restr aros.
- Ar gyfer gofal sylfaenol, roedd yna nod i leihau'r rhestrau aros.  
Roedd galw ar gynnydd oedd wedi'i gydnabod gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.
- Roedd gwaith ar y gweill gyda chlwstwr Meddyg Teulu Gogledd Sir Ddinbych i geisio lleihau'r niferoedd oedd yn cael eu hatgyfeirio i CAMHS Arbenigol drwy ymyrraeth gynnar yn y pwynt mynediad gofal sylfaenol.  
Roedd darparu'r gwasanaeth cywir ar yr amser cywir yn allweddol.
- Roedd cynnydd wedi'i wneud o ran hunan-niweidio gan fod darn o waith cadarn wedi'i wneud o fewn Sir Ddinbych ac roedd yna lawer o gefnogaeth a gwaith wedi'i wneud i helpu'r bobl ifanc hynny oedd yn hunan-niweidio.
- Byddai prosiect rhanbarthol sy'n cael ei arwain gan Sir Ddinbych yn cael ei sefydlu ond oherwydd cymhlethdod mae'n cymryd amser ac ystyriaeth ofalus.

Byddai'r prosiect yn darparu gwybodaeth ar gyfer datblygiad a phroblemau'r plentyn a fyddai ar gael i rieni a gofalwyr.

- Roedd effaith cyfryngau cymdeithasol ar bobl ifanc wedi cynyddu'n sylweddol a chadarnhawyd bod angen mireinio'r llwybrau.  
O ran gofal bugeiliol, roedd gan bob ysgol uwchradd berson cyswllt oedd yn mynychu pob cyfarfod.
- Roedd prosiect Allgymorth CAMHS Sir Ddinbych a Wrecsam yn cael ei werthuso ar hyn o bryd.  
Roedd hon yn gydfenter rhwng CAMHS ac ysgolion yn y ddwy sir.
- Cadarnhawyd bod gorbryder yn broblem anferth a gallai achosi iselder.  
Gobeithio y byddai'r mater hwn yn derbyn mwy o sylw wrth i fwy o staff gael eu recriwtio.
- Roedd gan y Gwasanaeth Addysg rôl allweddol i'w chware i ddarparu cefnogaeth briodol i ddisgyblion ysgol, fodd bynnag ni ellir gwneud hynny nes byddai asesiadau CAMHS wedi eu cwblhau.
- Roedd Gwasanaethau Niwroddatblygiad nawr wedi eu gwahanu oddi wrth CAMHS gan y cydnabyddir nad oedd cyflyrau niwroddatblygiadol yn gyflyrau iechyd meddwl
- Cadarnhawyd y byddai'r Gwasanaeth CAMHS yn archwilio'r potensial o ddatblygu dogfen ganllaw i rieni plant oedd yn aros i gael mynediad i'r gwasanaeth.

Diolchodd y Pwyllgor i'r cynrychiolwyr o BIPBC am fynychu a rhoi trosolwg o CAMHS.

***PENDERFYNWYD*** yn amodol ar y sylwadau uchod, i nodi'r cyflwyniad ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Glasoed a Gwasanaethau Niwroddatblygiad.

## **8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Cyflwynodd y Cydlynnydd Archwilio adroddiad (a ddisbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Gwaith y Pwyllgor a rhoi diweddariad ar faterion perthnasol.

7 Tachwedd 2019 – 4 eitem ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fyddai nawr yn aros fel y nodwyd.

Ar y pwynt hwn, gofynnodd y Cadeirydd i'r cyfarfod ddod i ben am 1.00pm i ganiatáu digon o amser ar gyfer pob eitem.

Cadarnhaodd y Cydlynnydd Craffu bod ffurflen cynnig wedi'i hystyried gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu ynglŷn â defnyddio chwynladdwr ar draws y sir. Roedd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi gofyn i'r eitem gael ei chynnwys yn yr eitem 'Polisi'au Cynnal Llain Las a Gwrychoedd Priffyrdd a Chefnffyrdd y Cyngor ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol y pwyllgor ar gyfer y cyfarfod ar 13 Chwefror 2020. Hefyd gofynnwyd i'r eitem hon gael ei rhestru fel yr eitem gyntaf ar y Rhaglen.

Roedd angen dau gynrychiolydd o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau i fynychu'r Grŵp Monitro Safonau Ysgol. Cytunwyd mai'r Cyngorwyr Hugh Irving a Peter Scott fyddai'r cynrychiolwyr.

***PENDERFYNWYD yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol fel ag y mae yn Atodiad 1 i'r adroddiad.***

**9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU**

Dim.

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.00pm.**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru



## Ymgynghoriad Cyhoeddus

Rydym eisiau cael eich barn ar ddatblygu Strategaeth  
Amgylcheddol ar gyfer 2020 ac ymlaen.

### **Ar gyfer pwy mae'r ymgynghoriad?**

Os oes gennych chi ddiddordeb yn nyfodol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, mae'r ymgynghoriad yma ar eich cyfer chi.

Bob blwyddyn, cyn penderfynu ar ei gynllun ar gyfer y flwyddyn ganlynol, mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gwahodd sylwadau ar bwnc arbennig. Mae syniadau, argraffiadau a gwahanol safbwyntiau y mae pobl yn eu cyfrannu yn gymorth mawr i sicrhau bod cynllun yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ganlynol yn un da.

Does dim angen i chi fod yn arbenigwr ar faterion amgylcheddol i ymateb. Yr unig beth mae'r Awdurdod yn ei ofyn yw eich bod chi'n meddwl o ddifri am y materion ac yn cyflwyno eich barn, syniadau neu wybodaeth erbyn y dyddiad cau.

### **Beth sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad?**

Eleni, mae'r Awdurdod yn holi ynglŷn â datblygu Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer y tymor hir. Beth ddylai'r Strategaeth ei gynnwys yn eich barn chi? Beth ddylai fod yn flaenllaw ym meddwl yr Awdurdod wrth gynllunio ar gyfer yr 20 neu'r 30 mlynedd nesaf? Pa syniadau sydd gennych chi ar gyfer y gwasanaethau y gallai fod yn eu darparu yn y degawdau nesaf?

Wrth edrych yn ôl dros y 30 mlynedd ddiwethaf, rydym wedi gweld newidiadau mawr yn y ffordd y mae pobl yn byw, a hefyd o ran beth mae pobl yr ardal yn disgwyl ei gyfrannu tuag at wasanaethau cyhoeddus, a'i gael gan wasanaethau cyhoeddus. Beth yn eich barn chi sy'n debygol o ddigwydd dros y 30 mlynedd nesaf? A oes angen ystyried unrhyw beth penodol ar gyfer Gogledd Cymru?

Newid yn yr hinsawdd, cyfrifoldeb am yr amgylchedd, cyfrifoldeb cymdeithasol...beth hoffech chi ei weld yng nghynlluniau'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer y dyfodol? Mae pawb yn gwybod bod y Gwasanaeth yn un sydd wedi newid ac addasu'n fawr dros y blynyddoedd. Ond pur anaml mai'r peth gorau i'w wneud yw disgwyl tan y funud olaf. Dyna pam mae angen i'r Awdurdod gynllunio ymlaen llaw drwy gael strategaeth hirdymor y mae modd ei haddasu.

Rydym yn mawr obeithio y bydd yr wybodaeth sydd wedi ei gynnwys yn ddefnyddiol ac y bydd yn eich hannog i gyflwyno'ch barn cyn 31 Rhagfyr 2019. Ceir gwybodaeth am sut i ymateb ar ddiwedd y ddogfen.



## Gwybodaeth gefndirol

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithredu ar draws ardaloedd y chwe cyngor sir yng ngogledd Cymru, ac mae'n gwasanaethu poblogaeth breswyl yr amcangyfrifir ei bod fymryn dan 700,000 o bobl, a hynny mewn ardal sy'n 2,375 o filltiroedd sgwâr.

Mae'n cyflogi rhyw 900 o bobl mewn swyddi llawn amser a rhan amser, ac mae mwy nag un o bob tri o'i weithlu yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Mae ei ymateb brys wedi'i drefnu o gwmpas 44 o orsafoedd tân sydd wedi'u lleoli ledled Gogledd Cymru. Mae ganddo fflyd o 54 o injanau tân a 35 o beiriannau eraill, gan gynnwys unedau diogelu'r amgylchedd, peiriannau ALP, cerbydau mynediad cyfyng, peiriannau cludo ewyn, cychod, achub technegol ac unedau rheoli digwyddiadau. Mae hefyd yn cadw 'fflyd' wen, sef 100 o gerbydau ar gyfer gwaith nad yw'n argyfyngau.

Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymateb i fwy na 5,000 o ddigwyddiadau brys bob blwyddyn, ac mae llawer ohonynt yn gysylltiedig â'r tywydd. Mewn blynyddoedd sych a phoeth, mae tanau awyr agored yn fwy cyffredin, ac mewn blynyddoedd gwlyb ac oer, mae'n fwy arferol gweld cynnydd mewn tanau simnai, llifogydd a stormydd. Mewn ambell flwyddyn wrth gwrs, mae cyfnodau o dywydd sych a phoeth a thywydd gwlyb ac oer. Y llynedd, roedd 14% o'r digwyddiadau yr aethpwyd atynt yn argyfyngau nad oeddent yn danau, ac roedd y gweddill yn cynnwys canran gyfartal o danau a galwadau diangen.

Mae'n gwario dros £35 miliwn o gyllideb refeniw flynyddol, ac mae tua 71% o hynny yn mynd ar gostau gweithwyr, 20% ar gostau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau, 10% ar ariannu cyfalaf; a'r 1% cyfatebol yn dod fel incwm.

Mae'r Awdurdod yn cymryd ei swyddogaeth ataliol o ddifri, ac mae'n dyrannu adnoddau ar gyfer rhaglenni ysgolion, ymgyrchoedd diogelwch, negeseuon ar y cyfryngau, archwilio safleoedd annomestig, ymweld â chartrefi pobl i roi cyngor ar ddiogelwch yn y cartref, lleihau llosgi bwriadol a gweithio gyda grwpiau penodol fel ffermwyr a thirfeddianwyr. Mae'r gweithgareddau ataliol nid yn unig yn gwneud synnwyr o ran diogelwch y cyhoedd, ond maent hefyd yn helpu i ddiogelu amgylcheddau adeiledig a naturiol, tir amaethyddol a chynefinoedd pwysig, ac maent yn cyfrannu at dir, awyr a dŵr glanach.

Fel ymatebwr yng Nghategori 1 dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil, mae'r Gwasanaeth yn parhau i fod ar gael i ymateb i ddigwyddiadau mawr a allai fygwth niwed difrifol i les pobl, bywyd gwyllt, yr amgylchedd a'r prif gadwyni cyflenwi.

Hefyd, rhaid iddo barhau i fod ar gael i ddiheintio pobl ar raddfa fawr ar ôl digwyddiadau cemegol, biolegol, radiolegol neu niwclear.

## **Pam mabwysiadu Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer 2020 ac ymlaen?**

Gall yr Awdurdod fod yn falch o'r hyn mae wedi'i gyflawni eisoes o ran ei bolisiau amgylcheddol, ond mae angen iddo barhau i wneud mwy. Yn 2010, fe wnaeth yr Awdurdod fabwysiadu Cynllun Datblygu Cynaliadwy. Yn 2011, sefydlodd Fwrdd Datblygu Cynaliadwy i helpu i leihau faint o ynni mae'n ei ddefnyddio ac i leihau'r effaith y mae ei adeiladau a'i gerbydau yn ei chael ar yr amgylchedd. Yn 2013, fe wnaeth yr Awdurdod ail-ymrwymo i'w Bolisiau Ynni ac Amgylcheddol, ynghyd ag i raglen o welliannau o ran y ffordd mae'n defnyddio tanwydd, cyfleustodau ac adnoddau; y ffordd mae'n rheoli gwastraff; a'r ffordd mae'n hybu bioamrywiaeth.

Pan ddaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, trodd yr Awdurdod ei sylw at gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd hon a chanfod ffyrdd o weithio â sefydliadau eraill i wella llesiant amgylcheddol, yn ogystal â llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol cenedlaethau o bobl yng Nghymru yn y dyfodol. Un o ofynion allweddol y Ddeddf yw gweithredu "mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau".

Fe wnaeth Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 baratoi'r ffordd i Lywodraeth Cymru osod targedau interim ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer 2020, 2030 a 2040 (gan arwain at 80% o leiaf o ostyngiad erbyn 2050) a "chyllidebau carbon" pum mlynedd, sy'n gosod terfynau ar gyfanswm yr allyriadau y gellir eu hallyrru yng Nghymru.

Ym mis Mawrth 2019, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei chynllun carbon isel ar gyfer sicrhau Cymru carbon isel. Yn fuan wedyn, datganodd fod argyfwng yn yr hinsawdd er mwyn cryfhau a symbylu camau gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd, a hynny gartref ac yn rhyngwladol. Mae un o'r nodau'n ymwneud â lleihau ôl troed carbon cynnyrch Cymreig drwy gyflwyno economi mwy effeithlon (cylchol) ar gyfer adnoddau. Un rhan o'r gwaith o alluogi hynny fyddai trwy gaffael yn y sector cyhoeddus i ysgogi'r farchnad.

Ym mis Mehefin 2019, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad pellach i sicrhau 95% o ostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050, a'r uchelgais yw cyrraedd sero-net.

## A fydd y Newid yn yr Hinsawdd yn effeithio ar y Gwasanaeth Tân ac Achub mewn gwirionedd?

Bydd, rydym yn credu y bydd. Mor bell yn ôl â 2006, roedd adroddiad ymchwil<sup>1</sup> a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn cydnabod yr effaith y byddai'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o'i chael ar wasanaethau tân ac achub:

*Bydd y newid yn yr hinsawdd yn dod â hafau poeth a sych, a gaeafau cynhesach a gwlybach yn amlach, a bydd digwyddiadau tywydd eithafol i'w cael yn amlach, megis glawogydd trwm a llifogydd, sychder yn yr haf, a llifogydd ar yr arfordir.*

*[...] bydd y newid yn yr hinsawdd yn arwain at hafau poeth yn amlach, felly bydd cynnydd yn nifer a difrifoldeb tanau glaswelltir a choedwigoedd, felly bydd angen llawer o ymdrech ychwanegol gan y Gwasanaethau Tân ac Achub. Rhagwelir hefyd y bydd yr hafau hyn yn rhai sych iawn, a gallai hynny arwain at brinder dŵr. Bydd prinder dŵr yn ystod yr haf yn effeithio ar y Gwasanaethau Tân ac Achub yn y DU, o ran hyfforddiant a diffodd tanau.*

*Dangosir hefyd y bydd mwy o lawiad yn y gaeaf, a lefelau uwch y môr, yn arwain at lifogydd amlach yn ystod y gaeaf."*

Mae'r amgylchedd naturiol yn hanfodol i'n llesiant; mae'n darparu'r aer yr ydym ni'n ei anadlu, ein bwyd, dŵr yfed, dillad, moddion, defnyddiau adeiladu yn ogystal â manau gwyrdd ar gyfer gweithgareddau hamdden, fodd bynnag, yn ôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol<sup>2</sup> mae Cymru ymhlith un o'r gwledydd lle mae natur wedi prnhau fwyaf yn y byd. Yn wir, Cymru sydd â'r ansawdd aer gwaethaf yn y DU ac y mae'n dal i allyrru nifer fawr o nwyon tŷ gwydr. Mae mewn mwy o berygl o lifogydd mawr ac erydiad pridd ac mae 1 o 14 o'i rywogaethau bywyd gwyllt ar fin diflannu.

Mae'r Awdurdod â'i fryd ar fod yn amgylcheddol gydwybodol ac yn sefydliad cyfrifol. Mae hyn yn bwysig nid yn unig oherwydd bod y cynnydd mewn digwyddiadau sydd yn gysylltiedig â thywydd eithafol megis llifogydd a thanau glaswellt yn cael effaith uniongyrchol ar y galw am ein gwasanaethau, ond am eu bod hefyd yn peri risg ariannol sylweddol i'r Awdurdod.

Trwy weithio gyda phartneriaid, mae'r Awdurdod yn gobeithio dod â rhanddeiliaid a chymunedau at ei gilydd i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn y gobaith y gellir cryfhau cymdogaethau a chreu buddion ychwanegol gan wybod y gallwn sicrhau dyfodol gwell trwy weithredu gyda'n gilydd.

Rydym yn meddwl y bydd hyn yn effeithio fwyaf ar y canlynol yn yr Awdurdod:

<sup>1</sup> Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol: "Effects of Climate Change on Fire and Rescue Services in the UK. Fire Research Technical Report 1/2006".

<sup>2</sup> <https://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2019/06/Resilient-Wales-Topic-4-welsh.pdf>

- Ymateb i argyfyngau;
- Gwaith ataliol;
- Camau gweithredu a chyfrifoldebau corfforaethol.

Rhoddir ystyriaeth fanylach i'r rhain ar y tudalennau canlynol.

## 1. Ymateb i argyfyngau

Mae diogelu'r amgylchedd naturiol yn agwedd bwysig ar y modd y mae'r Gwasanaeth yn ymateb yn weithredol.

Dan y gyfraith, rhaid i'r Awdurdod wneud darpariaeth ar gyfer y canlynol:

- diffodd tanau, sy'n gallu digwydd y tu allan yn ogystal ag mewn adeiladau, cerbydau ac ati;
- diogelu bywyd ac eiddo os oes tân, a hynny rhag y tân ei hun a hefyd rhag unrhyw berygl eilaidd (e.e. cemegion sy'n cael eu rhyddhau yn ystod tân);
- achub pobl, a'u hamddiffyn rhag niwed difrifol os oes argyfyngau'n ymwneud â llifogydd neu ddŵr mewndirol;
- ymateb i ddigwyddiadau mawr a allai fod yn fygythiad difrifol i les bywyd gwyllt a'r amgylchedd, yn ogystal ag i bobl a/neu i'r prif gadwyni cyflenwi.

Mae'r gofynion cyfreithiol yn ymestyn i sicrhau bod y bobl sy'n delio â'r digwyddiadau brys wedi cael hyfforddiant ac offer priodol i wneud hynny.

Hefyd dan y gyfraith, mae gan yr Awdurdod bwerau i'w alluogi i gymryd camau y mae'n eu hystyried yn briodol (gan gynnwys diogelu offer) mewn sefyllfa pryd gallai pobl neu'r amgylchedd (gan gynnwys bywyd ac iechyd planhigion ac anifeiliaid) gael niwed difrifol.

### Beth yw eich barn am ein hymateb i argyfyngau yn y dyfodol?

Da chi, dywedwch wrthym unrhyw beth y dylai'r Awdurdod, yn eich barn chi, ei ystyried mewn perthynas ag ymateb i argyfyngau. Efallai y bydd y canlynol yn gymorth i chi:

- A oes heriau penodol yng Ngogledd Cymru y dylai'r Awdurdod eu hystyried o ran cynllunio ei allu i ymateb i argyfyngau yn yr 20 i 30 mlynedd nesaf?
- A ddylai'r Awdurdod fod yn meddwl am addasu ei hyfforddiant i ddiffoddwyr tân neu i'r offer maent yn ei ddefnyddio er mwyn gwella ei ymateb brys?
- Pa fath o newidiadau ydych chi'n meddwl fydd yn digwydd yng ngogledd Cymru (neu'r tu hwnt) ac y mae angen i'r Awdurdod ddechrau cynllunio ar eu cyfer?
- Beth, os o gwbl, fyddai'n atal yr Awdurdod rhag bod yn gallu amddiffyn yr amgylchedd, cynefinoedd, planhigion, anifeiliaid a chysiau dŵr yn y dyfodol?

## 2. Gweithgareddau ataliol

Mae'r Awdurdod yn buddsoddi mewn gwaith ataliol ers rhai blynyddoedd, ac mae wedi ymrwymo i'r egwyddor ei bod yn wastad yn well atal argyfwng rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Mae llawer o'i waith yn ymwneud ag atal tanau mewn cartrefi oherwydd dyna lle mae pobl mewn mwyaf o berygl o gael eu lladd neu eu hanafu oherwydd tân. Hefyd, mae ei rwymedigaethau statudol mewn perthynas â gwaith ataliol wedi'i anelu'n bennaf at atal *tanau*.

Mae ei waith ataliol mewn cartrefi wedi bod yn llwyddiannus iawn. Pan wnaethom ni ofyn i'r cyhoedd yn 2015 a ddylai'r Awdurdod gadw'r amcan o ostwng nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi fel ei brif amcan, roedd mwy na 92% o'r ymatebion yn dweud y dylai wneud hynny.

Fodd bynnag, mae staff y Gwasanaeth yn gwneud gwaith ataliol mewn meysydd eraill hefyd, megis ym maes llosgi bwriadol a thirfeddianwyr yn llosgi dan reolaeth.

### Beth yw eich barn am weithgareddau ataliol yn y dyfodol?

Dyma rai pethau eraill i brocio'r meddwl, ond eto teimlwch yn rhydd i ddweud unrhyw beth yr ydych chi'n meddwl y dylai'r Awdurdod ei ystyried mewn perthynas â'i weithgareddau ataliol.

- O ddewis, fydddech chi eisiau gweld yr Awdurdod yn parhau i ganolbwyntio ar atal tanau mewn cartrefi, ynteu a ddylai newid ei bwyslais tuag at atal tanau yn yr awyr agored?
- Heblaw atal tanau, a oes unrhyw beth arall y gallai'r Awdurdod ddefnyddio ei arbenigedd ataliol ar ei gyfer?
- A ydych chi'n gallu gweld gwaith ataliol yr Awdurdod yn newid yn y dyfodol? Neu efallai eich bod yn meddwl y dylai'r newid ddechrau nawr? Os hynny, sut?

### 3. Gweithgareddau corfforaethol

Y tu ôl i'r gweithgareddau ataliol a'r ymateb brys 999 mae amrywiaeth eang o weithgareddau corfforaethol. Heb y rhain, ni fyddai modd cyflawni'r gweithgareddau 'rheng flaen'. Ni fyddai unrhyw adroddiadau nac atebolrwydd i'r cyhoedd, dim rheolaeth ariannol, neb i ofalu am y canlynol, er enghraifft: caffael offer, rhoi serfis i gerbydau, gwirio hydrantau; cadw ffonau a chyfrifiaduron yn gyfredol ac yn gweithio; prynu a thalu am nwyddau a gwasanaethau; gofalu am orsafoedd tân a'r tir o'u cwmpas; cyflogi, hyfforddi a thalu staff; cadw cofnodion ac adrodd ynghylch gwybodaeth.

Hefyd, ni fyddai'r Awdurdod yn gallu cyflawni llawer o'i rwymedigaethau cyfreithiol tuag at agweddau fel iechyd a diogelwch, gwiriadau diogeled, diogelu ("*safeguarding*"), cydraddoldeb, cynllunio ar gyfer argyfyngau sifil, safonau'r Gymraeg, diogelu data, rhyddid gwybodaeth; ac wrth gwrs, cynllunio gwasanaethau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a diogelu'r amgylchedd.

O ran datblygu Strategaeth Amgylcheddol, dyma gyfle i ystyried beth allai atal yr Awdurdod rhag darparu ei wasanaethau yn y dyfodol, a pha effeithiau cadarnhaol a negyddol y byddai gweithgareddau'r Awdurdod yn eu cael ar yr amgylchedd. Fodd bynnag, mae'r materion yn gymhleth. Ystyriwch y canlynol, er enghraifft:

- Mae diffodd tanau yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd, ond beth am ôl troed carbon yr offer sydd ei angen i wneud hynny? Beth am y ffordd mae'r Gwasanaeth yn defnyddio dŵr i ddiffodd tanau? Mae buddsoddi mewn offer newydd yn codi cwestiynau am fforddiadwyedd. Mae newid polisiâu a gweithdrefnau yn codi cwestiynau am allu a risg.
- Mae diweddarau cyfrifiaduron yn amddiffyn rhag ymosodiadau seiber ar systemau electronig y Gwasanaeth, ond beth am yr effaith y gallai prynu cyfrifiaduron newydd ei chael ar yr amgylchedd? Nid yw amser staff ac adnoddau yn ddi-ben-draw – beth ddylai'r Awdurdod ei ystyried wrth geisio cael cydbwysedd rhwng ei gyfrifoldebau tuag at yr amgylchedd a'i holl gyfrifoldebau eraill?

#### Beth yw eich barn am weithgareddau corfforaethol yn y dyfodol?

- Sut gallai'r Awdurdod ei wneud ei hun yn sefydliad mwy effeithlon yn amgylcheddol?
- Pa egwyddorion ddylai eu dilyn wrth sicrhau cydbwysedd rhwng ei angen i ddarparu gwasanaethau brys a'i gyfrifoldeb corfforaethol tuag at yr amgylchedd?
- Pa syniadau sydd gennych am y modd y gallai'r Awdurdod a) leihau ei effeithiau negyddol neu b) cynyddu ei effeithiau cadarnhaol ar yr amgylchedd?
- Beth arall gallai'r Awdurdod ei wneud? A oes unrhyw newidiadau sylfaenol, er enghraifft, y dylai fod yn gweithio tuag atynt nawr er mwyn iddo fod yn fwy effeithlon yn amgylcheddol yn y dyfodol?

## Sut i ymateb

Anfonwch eich syniadau a'ch barn atom gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod:

**Drwy'r post i:**

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru  
Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub  
Ffordd Salesbury  
Parc Busnes Llanelwy  
Llanelwy  
Sir Ddinbych, LL17 0JJ

**Drwy e-bost i:**

[futurefire@nwales-fireservice.org.uk](mailto:futurefire@nwales-fireservice.org.uk)

**Trwy fynd i'n hwb ymgynghori ar-lein;**

<http://www.yourvoicewrexham.net/kms/elab.aspx?noip=1&CampaignId=914&CampaignStepTestId=-1&CampaignStepQuestionTestId=-1&CampaignUserRole=test>



|                                   |                                                                              |
|-----------------------------------|------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r:</b>             | <b>Pwyllgor Craffu Partneriaethau</b>                                        |
| <b>Dyddiad y cyfarfod:</b>        | <b>7 Tachwedd 2019</b>                                                       |
| <b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b> | <b>Cynghorydd Bobby Feeley/Phil Gilroy</b>                                   |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b>        | <b>David Soley</b>                                                           |
| <b>Teitl:</b>                     | <b>Cyllidebau Cymorth ar gyfer Pobl ag Anghenion Gofal a Chymorth Cymwys</b> |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth am y cynnydd a wnaed o ran datblygu, hyrwyddo a lledaenu cyllidebau cymorth i bobl sy'n gymwys i'w derbyn.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi sicrwydd ynghylch darpariaeth yn erbyn blaenoriaeth gorfforaethol y Cyngor sy'n ymwneud ag adeiladu cymunedau gwydn a chyflawni amcanion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn cydnabod ac yn gwneud sylwadau ar y cynnydd sy'n digwydd o ran datblygu, hyrwyddo a lledaenu cyllidebau cymorth i bobl sy'n gymwys i'w derbyn.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae cyllidebau cymorth yn rhan o newid sylfaenol i bolisi ac ymarfer ym maes gofal cymdeithasol, sy'n cael ei ategu gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn galw am newid arwyddocaol mewn systemau, prosesau, diwylliant ac ymarfer yn y maes hwn.

4.2 Mae cyllidebau cymorth yn elfen hanfodol o'r newid yn mhattrwm gofal cymdeithasol oedolion sy'n rhoi pwyslais ar yr angen i ddinasyddion gadw rheolaeth dros eu bywydau eu hunain, i ddweud pa ddeilliannau sy'n bwysig iddyn nhw ac i aros yn ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

4.3 Bydd Cyllidebau Cymorth yn galluogi dinasyddion i ddeall faint yw cost eu gofal gan ganiatáu iddynt weithio gydag awdurdodau lleol i gytuno ar y defnydd mwyaf effeithiol ac effeithlon o adnoddau.

### 4.4 Proses

4.4.1 **Cyllideb Gymorth** yw'r swm o arian y bydd yn ofynnol i Gyngor Sir Ddinbych (CSDd) ei dalu am y cymorth y bydd ar ddinasydd ei angen i wireddu'r deilliannau cymwys, a chaiff ei gyfrifo ar ôl asesiad cynhwysfawr a phroses gynllunio gofal.

- 4.4.2 Ar ôl cytuno ar y deilliannau cymwys, bydd yr asesydd a'r dinesydd yn defnyddio'r **Olwyn Adnoddau**, sef proses lle byddant yn cytuno pa ofal a chymorth sydd eisoes yn bodoli drwy'r asedau sydd ar gael iddynt e.e. eu teulu, y gymuned leol a sefydliadau gwirfoddol.
- 4.4.3 Bydd unrhyw ofal a chymorth a fyddant o bosibl yn gofyn am nawdd CSDd yn cael eu hystyried gan **Banel Adolygiad gan Gymheiriaid**, grŵp amlddisgyblaeth o weithwyr rheng flaen proffesiynol a fydd yn cytuno ar y dull mwyaf effeithiol ac effeithlon o gefnogi'r dinesydd i wireddu'r canlyniadau a ddymunir, ac amcangyfrif o'r gost debygol: **'Y Gyllideb Gymorth'**.
- 4.5 **Ar ôl cytuno ar werth y Gyllideb Gymorth cynigir 4 opsiwn i'r dinesydd:**
- 4.5.1 **'Taliad Uniongyrchol'** - taliad yn lle gwasanaeth gan alluogi'r dinesydd i drefnu eu gofal a'u cymorth eu hunain.
- 4.5.2 **'Cyllideb Gymorth a Reolir gan y Cyngor'** - CSDd yn trefnu ac yn talu am y gofal a'r cymorth angenrheidiol
- 4.5.3 **Cyllideb Gymorth a Reolir gan Drydydd Parti** – CSDd yn talu'r gyllideb gymorth i sefydliad y gellir ymddiried yno a fydd yn trefnu gofal a chymorth y dinesydd ar eu rhan.
- 4.5.4 Unrhyw **gyfuniad** o'r uchod
- 4.6 Cynnydd**
- 4.6.1 **Datblygiadau:** datblygwyd yr holl systemau, prosesau ac arweiniad angenrheidiol cyn dechrau defnyddio'r trefniant Cyllidebau Cymorth ym mis Gorffennaf 2018.
- 4.6.2 Mae systemau, prosesau ac arweiniad ar y cyllidebau cymorth wedi cael eu hadolygu a'u harchwilio'n fewnol a datblygwyd cynllun gweithredu mewn ymateb i'r casgliadau.
- 4.6.3 **Hyrwyddo:** mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ar wefan CSDd, gwybodaeth, cyngor a chymorth gan y sector gwirfoddol a staff y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol yn 'Pwyntiau Siarad', pwynt mynediad unigol y GCC a sgysiau uniongyrchol gyda dinasyddion a'u gofalwr yn ystod y broses asesu, cynllunio ac adolygu cymorth.
- 4.6.4 Mae rhoi cyllidebau cymorth ar waith yn llwyddiannus yn gofyn am ymdriniaeth cyngor cyfan, gydag enghreifftiau diweddar yn cynnwys cydweithio â Gwasanaethau Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych i edrych ar gyfleoedd dydd amgen ar gyfer dinasyddion diamddiffyn, a gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar rymuso cymunedol, a rôl y Llywyr Cymunedol a'r Rhagnodwyr Cymunedol o ran darparu'r strategaeth rheoli pwysau.
- 4.6.5 **Gweithrediad:** Ers cyflwyniad y cyllidebau cefnogi ym mis Gorffennaf 2018 mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Archwilio Mewnol wedi cyfeirio at gynnydd cadarnhaol, fodd bynnag bydd yn cymryd amser a dyfalbarhad iddynt ymwreiddio'n gyfan gwbl yn ymarferol ac i CSDd, ein dinasyddion a'n gofalwyr wirioneddol werthfawrogi'r manteision.
- 4.6.6 Mae'r **Gwasanaethau Cymorth Cymunedol** yn parhau i ddarparu hyfforddiant, cymorth ac arweiniad ac yn ddiweddar cawsant arian grant gan Fwrdd Iechyd Prifysgol

Betsi Cadwaladr i ddarparu hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer staff wedi'i ddarparu gan y Tîm Datblygu Cynhwysiant Cenedlaethol.

#### **4.7 Yr heriau a ragwelwyd o ran datblygu**

4.7.1 Mae llawer o gynghorau wedi darganfod mai'r her fwyaf yw diwylliant ac ymarfer ymysg staff rheng flaen. Mae'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol wedi gwneud ymrwymiad arwyddocaol a pharhaus i newid diwylliant, a chasgliad AGC yn dilyn ei archwiliad diweddar oedd:

*Mae staff wedi'u grymuso i gyd-gynhyrchu atebion creadigol sy'n diwallu'r deilliannau y mae'r bobl y mae arnynt gofal a chymorth, a gofalu'r sydd angen cefnogaeth, wedi eu dynodi drostynt eu hunain. Mae darpariaeth gwasanaeth yn seiliedig ar yr uchelgais i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau trigolion Sir Ddinbych. Mae enghreifftiau da o reolwyr ar bob lefel yn defnyddio eu menter a'u sgiliau arweinyddiaeth i sicrhau gwelliannau mewn diwylliant ac arfer gweithredol" (AGC 2019)*

4.7.2 Rhagwelwyd y gallai'r gwahaniaeth arwyddocaol rhwng diwylliant staff GIG a'r Awdurdod Lleol greu her sylweddol o ran sicrhau timau integredig, ac i fynd i'r afael a hyn mae'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol wedi cael arian grant gan BIPBC i gomisiynu pecyn hyfforddi a chefnogaeth cynhwysfawr ar gyfer staff GIG.

#### **4.8 Yr heriau nad oeddent wedi eu rhagweld o ran datblygu**

4.8.1 Mae Cyllidebau Cymorth yn gofyn am newid arwyddocaol i'r system PARIS. Dynododd adolygiad ac archwiliad mewnol nifer o heriau cysylltiedig â ffurf y system ar hyn bryd sy'n effeithio ar gadw cofnodion effeithiol, adrodd yn ôl a rheoli perfformiad. Mewn ymateb mae grŵp tasg a gorffen TGCh a GCC wedi'i sefydlu i archwilio a gweithredu'r newidiadau angenrheidiol mewn systemau.

4.8.2 Mae taliadau uniongyrchol yn gofyn bod CSDd yn datblygu systemau monitro ariannol newydd i sicrhau bod dinasyddion yn defnyddio'u harian i wireddu'r deilliannau cytunedig a i alluogi CSDd i adennill arian na chafodd ei wario. Ni all system ariannol bresennol CIS gefnogi monitro Taliadau Uniongyrchol, sy'n cael ei reoli ar hyn o bryd drwy systemau papur cymhleth a llafurus. Mae'r cynigion presennol o ran sut i fynd i'r afael â hyn yn cynnwys:

- a) Mabwysiadu cardiau talu rhagdaledig sy'n caniatáu monitro ac adrodd awtomataidd.
- b) Caffael system yn lle'r system ariannol CIS

4.8.3 Fel gyda llawer o brosesau newydd mae'r rhai hynny a ddatblygwyd ar gyfer Cyllidebau Cymorth wedi galw am fonitro ac adolygu cyson er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fod yn addas i'r pwrpas ac yn adlewyrchu'r newidiadau parhaus i ddeddfwriaeth ac arweiniad cenedlaethol y DU.

4.8.4 Mae galluogi dinasyddion i gymryd mwy o reolaeth dros eu gofal a'u cymorth yn gofyn bod GCC yn adolygu ac yn gwella'r prosesau y mae staff yn eu dilyn i asesu a chofnodi 'capasiti meddyliol' dinesydd i wneud penderfyniadau. Gwnaed hyn drwy weithrediad teclyn asesu diwygiedig a darpariaeth hyfforddiant ychwanegol.

4.8.5 **Diwylliant ac arfer:** fel arfer mae heriau diwylliannol a heriau o ran ymarfer nad oeddent wedi eu rhagweld yn cael eu dynodi a'u goresgyn drwy'r Broses Adolygiad gan Gymheiriaid', lle bydd panel amlddisgyblaeth o weithwyr rheng flaen proffesiynol

yn craffu ar ac yn herio ymarfer yn rymus mewn ffyrdd sydd fel arfer yn fwy anodd eu derbyn pan fydd rheolwyr yn gwneud hynny.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

- 5.1 Mae Cyllidebau Cymorth yn galluogi dinasyddion a gofalwyr i chwarae rôl weithredol mewn cynllunio a siapio eu gofal a'u cymorth ac yn eu grymuso i aros yn ddiogel ac yn annibynnol yn eu cymunedau eu hunain.
- 5.2 Mae darpariaeth gwybodaeth hawdd ei chael drwy'r GCC, pwyntiau siarad, pwyntiau mynediad sengl a rhyngweithio wyneb yn wyneb yn ystod y cyfnod asesu a chynllunio cymorth yn helpu dinasyddion Sir Ddinbych i wneud dewisiadau mwy gwybodus am eu gofal a'u cymorth, gan gynyddu eu gwytnwch a'u galluogi i aros yn annibynnol yn hirach.
- 5.3 Ers cyflwyniad y Cyllidebau Cymorth, mae'r asesiad yn fwy na dim ond drws tuag at y gwasanaethau, yn hytrach mae'n rhyngweithio cymhleth sy'n sicrhau bod dinasyddion a gofalwyr yn chwarae rhan lawn mewn siapio a gwella'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen.
- 5.4 Mae dinasyddion a gofalwyr sy'n cael gofal a chymorth gan CSDd yn awr yn cael eu gwahodd i ymuno â 'Bwrdd Ymgynghorol Dinasyddion' newydd a sefydlwyd er mwyn sicrhau bod datblygiadau'n llwyr adlewyrchu safbwyntiau a dymuniadau'r bobl y maent yn eu cefnogi.
- 5.5 Mae cyllidebau cymorth yn cael eu derbyn yn aml gan ofalwyr gan eu bod yn caniatáu llawer mwy o hyblygrwydd yn narpariaeth gofal a chymorth.
- 5.6 Bydd yr hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu ar gyfer staff GIG mewn timau integredig yn helpu i sicrhau bod dinasyddion yn profi ymagwedd gyson tuag at ddarpariaeth gofal iechyd a chymdeithasol yn Sir Ddinbych a bod yr elfennau hynny sy'n rhwystro gwasanaeth di-dor yn cael eu lleihau.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae holl elfennau datblygu, monitro ac adolygu'r cyllidebau cymorth a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn yn cael eu darparu drwy'r adnoddau ariannol a staffio cyfredol.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Ni chwblhawyd Asesiad o Effaith ar Les ffurfiol fel rhan o ddatblygiad y Cyllidebau Cymorth oherwydd bod y gofyniad i ddarparu'r rhain wedi'i bennu yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

## **8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Cafodd darpariaeth cyllidebau cymorth ei gynnwys mewn trafodaethau gyda'r Pwyllgor Craffu yn ystod y newidiadau a roddwyd ar waith fel rhan o ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a gwnaed cais am yr adroddiad hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Fel y nodir yn Adran 6, mae'r Gwasanaeth wedi cadarnhau nad oes unrhyw oblygiadau ychwanegol o ran adnoddau o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae risg (isell dros ben) y gallai dinasyddion ddefnyddio'r arian a roddir iddynt fel Cyllideb Gymorth mewn ffyrdd nad ydynt yn gwireddu'r deilliannau cytunedig. Bydd hyn yn cael ei liniaru drwy gyflwyno cardiau wedi'u rhagdalau tebyg i'r rhai hynny a ddefnyddir ar gyfer dinasyddion sydd angen cymorth gan Dîm y Llys Gwarchod.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae pwerau'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â'r mater hwn wedi'u pennu yn Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7.4.2(b) o Gyfansoddiad y Cyngor.

**Swyddog Cyswllt:**

David Soley Prif Reolwr, Comisiynydd Arweiniol Gwasanaethau Cymorth  
Gymunedol 01824 706333

**1. Astudiaeth Achos 1**

- 1.1 Dyn 26 oed â diagnosis o awtistiaeth difrifol ac anabledd dysgu yn byw gyda'i deulu, sydd eisiau gweithio fel ei frodyr a'i chwiorydd ac a hoffai ddysgu bod yn fecanydd.
- 1.2 Mae ar y dinesydd angen amgylchedd dysgu a gweithio cefnogol iawn nad yw ar gael drwy unrhyw weithgaredd dydd, cyfle dysgu na chynllun prentisiaeth lleol.
- 1.3 Daeth y teulu o hyd i athro mecaneg sydd â'i garej ei hun sy'n barod i gynnig yr hyfforddiant priodol mewn amgylchedd cefnogol.
- 1.4 Defnyddir taliad uniongyrchol i ariannu sesiynau hyfforddi 4.5 awr, 4 diwrnod yr wythnos.
- 1.5 Deilliannau llesiant llawer iawn gwell i'r dinesydd a'i ofalwyr.
- 1.6 Llawer llai o bwysau ar y gofalwr a fydd yn ei dro yn lleihau'r posibilrwydd y bydd y gofalwr yn cyrraedd y pwynt lle na all ymdopi mwyach.
- 1.7 Arbedion cost wedi eu gwireddu gan fod hyn yn rhatach na gwasanaeth traddodiadol.

**2. Astudiaeth Achos 2**

- 2.1 Dyn 67 oed gyda diagnosis o ddementia cynnar yn byw gyda'i wraig yn sir Ddinbych.
- 2.2 Gwraig y dyn yw ei brif ofalwr ac mae arno angen cefnogaeth 24 awr y dydd gyda phob agwedd ar fywyd dydd i ddydd.
- 2.3 Mae'r asesiad yn dynodi risg uchel i iechyd y gofalwr a'r angen am ofal seibiant ar fyrder.
- 2.4 Mae'r gŵr a'i ofalwr yn gwrthod gofal seibiant preswyl am nad ydynt yn dymuno cael eu gwahanu.
- 2.5 Yn ystod asesiad dywedodd y pâr gymaint yr oeddent yn arfer mwynhau gwyliau rheolaidd yn eu cerbyd gwersylla (campervan) ond nad ydynt erbyn hyn yn gallu fforddio ffioedd y safleoedd.
- 2.6 Defnyddiwyd taliad uniongyrchol i dalu am ffioedd safleoedd fel y gall y cwpl fynd am seibiannau rheolaidd yn eu cerbyd gwersylla.
- 2.7 Deilliannau llesiant llawer iawn gwell i'r dinesydd a'i ofalwr.
- 2.8 Llawer llai o bwysau ar ofalwr a fydd yn ei dro yn lleihau'r posibilrwydd y bydd y gofalwr yn cyrraedd y pwynt lle na all ymdopi mwyach.
- 2.9 Arbedion wedi'u gwneud gan fod ffioedd safleoedd gwersylla'n rhatach na gofal seibiant traddodiadol.

|                                   |                                                                                                                            |
|-----------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r:</b>             | <b>Pwyllgor Craffu Partneriaethau</b>                                                                                      |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>        | <b>7 Tachwedd 2019</b>                                                                                                     |
| <b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b> | <b>Tony Thomas - Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd.<br/>Geoff Davies - Swyddog Arweiniol - Tai Cymunedol</b> |
| <b>Awduron yr Adroddiad:</b>      | <b>Geoff Davies - Swyddog Arweiniol - Tai Cymunedol<br/>Clare Budden - Prif Weithredwr Cymdeithas Tai Clwyd Alyn</b>       |
| <b>Teitl:</b>                     | <b>Un Llwybr Mynediad at Dai (SARTH)</b>                                                                                   |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn sôn am weithrediadau SARTH, sef Un Llwybr Mynediad at Dai sydd yn delio â sut y rheolir ceisiadau am dai cymdeithasol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae hwn yn ymateb i gais i graffu "effeithiolrwydd y bartneriaeth newydd i helpu pobl gael mynediad at lety o fewn amserlenni rhesymol".

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad hwn a rhoi sylwadau yn unol â hynny.

## 4. Manylion yr adroddiad

SARTH yw "Un Llwybr Mynediad at Dai", sef yr enw a roddir ar y polisi Dyrannu Tai Cyffredin rhwng cynghorau Sir Ddinbych, Sir Y Fflint a Chonwy a'r Cymdeithasau Tai (Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig) sydd yn gweithredu yn y siroedd hyn.

Cymeradwyodd y Cabinet y Polisi Dyrannu ym mis Ionawr 2014, ac ym mis Ebrill 2017, gweithredwyd SARTH yn Sir Ddinbych.

### 4.1 Polisi Dyraniadau Cyffredin

Mae'r polisi yn sicrhau ein bod yn darparu dyraniadau tai cymdeithasol yn unol â'r ddeddfwriaeth tai (Deddf Tai 1996, Tai (Cymru) 2014) a Chod Canllawiau ar gyfer Dyrannu Llety. Mae hyn yn angenrheidiol i liniaru'r risg o her gyfreithiol ond hefyd i sicrhau y dyrennir tai i'r rhai sydd â'r angen fwyaf. **Atodiad 1** yw'r dogfen Polisi SARTH cyfredol.

Mae gweithredu cyffredinol y polisi yn cael ei fonitro gan y Grŵp Llywio Rhanbarthol sydd yn cynnwys y 3 cyngor a'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sydd

ynghlwm. Yn ogystal, mae unrhyw faterion gweithredol ynghylch gweithredu'r polisi o ddydd i ddydd, gan gynnwys apeliadau gan ymgeiswyr ynghylch â'u bandio blaenoriaeth yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd misol o'r Grŵp Panel Gweithredol.

#### **4.2 Cofrestr Tai Cyffredin Sir Ddinbych**

Tra bo'r polisi yn bartneriaeth ar y cyd rhwng y 3 sir, mae darparu'r gofrestr tai cyffredin yn gyfrifoldeb unigol i bob sir. Yn Sir Ddinbych, rydym bellach yn gweithredu un cofrestr ar gyfer pob tai cymdeithasol sy'n cael eu gosod gan y cyngor, a'r 6 Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sydd yn gweithredu o fewn Sir Ddinbych.

Mewn perthynas â darpariaeth weithredol o gofrestr gyffredin Sir Ddinbych, mi wnaethom y penderfyniad ym mis Medi 2016 i fynd mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint, gan eu bod eisoes yn darparu'r gwasanaeth hwn ac wedi bod drwy'r broses o newid sylweddol i sicrhau gweithrediadau a gweithredu esmwyth o'r gwasanaeth.

#### **4.3 Partneriaeth Sir y Fflint**

Mae'r dull partneriaeth gyda Sir y Fflint wedi mynd rhagddo'n dda yn gyffredinol. Cafodd y gwaith sydd ei angen i weithredu darpariaeth gweithredol SARTH ei ystyried yn fanwl yn 2016, ond roeddem yn cydnabod y buddion o ddefnyddio profiad Sir y Fflint a sut y bu iddynt sefydlu eu gwasanaethau i fodloni'r galw o ddarparu hyn yn effeithiol. Yn ogystal, mae'r gallu i ddefnyddio systemau TGCh sydd wedi'u ffurfweddu eisoes wedi bod o fudd sylweddol.

I grynhoi, mae'r gwasanaeth yn ymdrin â dros 300 o alwadau'r wythnos gan gynnwys ymdrin â galwadau ffôn cychwynnol, cyfweiliadau gyda chwsmeriaid, asesiadau manwl o geisiadau yn unol â'r polisi a heriau mewn perthynas â phenderfyniadau. Mae achosion yn cael eu cyfeirio yn aml at wasanaethau eraill megis Atal Digartrefedd, Gorfodi Tai, Tai Teg a gwasanaethau cynnal hefyd. Mae ymdrin â galwadau a gohebiaeth ysgrifenedig gyda brand Sir Ddinbych a nid yw cwsmeriaid yn ymwybodol ym mhle y lleolir y staff.

Mae Sir Ddinbych yn cael gwerth am arian am y bartneriaeth gan fod y gost yn llai na chost i ddarparu'r gwasanaeth ein hunain. Cost blynyddol i Sir Ddinbych ar hyn o bryd yw £52k sydd yn llai na chost am 2 staff llawn amser ar raddfa 5. Rydym yn cyfrifo y byddem angen y staff ychwanegol hyn fel isafswm yn ychwanegol i'r gallu i ddelio â'r nifer uchel o alwadau ffôn a'r broses brysbennu hirfaith. Mae Sir y Fflint yn cael budd gan arbedion maint gan ddarparu'r gwasanaeth i bartneriaid ychwanegol.

#### **4.4 Perfformiad**

Rydym yn monitro perfformiad a'r weithred o gytundeb partneriaeth gyda Sir y Fflint i sicrhau bod safonau gwasanaeth yn cael eu darparu a'u cynnal gan gynnwys perfformiad ateb galwadau. Rydym yn ymwybodol o'r nifer uchel o alwadau a chymhlethdod galwadau, a mae Sir y Fflint wedi parhau i adolygu'r gwasanaeth ac wedi rhoi ystyriaeth manwl ar y ffordd orau i ddarparu'r gwasanaeth yn effeithiol. Y cyfartaledd amser cyfredol o ymateb i alwadau yw 1 munud 19 eiliad.

#### **4.5 Bodloni Anghenion Tai**

Rydym yn gwybod bod nifer o geisiadau am dai wedi lleihau'n sylweddol ers cyflwyno'r polisi newydd. Yn flaenorol roedd oddeutu 3,000 o ymgeiswyr ar draws nifer o gofrestri landlordiaid a gynhelir yn Sir Ddinbych, ond mae adolygu'r



cymhwyster wedi gweld hyn yn lleihau i oddeutu 1.200. Mae **Atodiad 2** yn rhoi data gefndirol ar yr angen o ran tai a dyraniad o dai arbennig yn Sir Ddinbych yn ystod 2018/2019. Mae **Atodiad 3** yn amlinellu sut mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod anghenion mwy cymhleth yn cael eu cydnabod drwy'r polisi.

#### 4.6 **Effaith y Polisi**

Mae'r partneriaid yn y bartneriaeth SARTH ehangach yn ymwybodol y dylai'r polisi gael ei adolygu'n awr i sicrhau bod y polisi yn cyflawni ei nodau ac yn bodloni anghenion tai yn briodol. Mae'r Tîm Strategaeth Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cael eu comisiynu i gyflawni adolygiad ar effaith y polisi.

#### 4.7 **Cydymffurfiaeth a Chysondeb**

Mae'r grŵp llywio hefyd wedi comisiynu gwaith i gyflawni archwiliadau rheolaidd o gydymffurfiaeth â'r polisi gan bob landlord i sicrhau cysondeb mewn dyraniadau. Bydd hyn yn sicrhau defnyddio'r polisi yn gywir ac amlygu defnydd anghywir neu amhriodol o opsiynau dargyfeirio. Mae'r canfyddiadau yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i'r grŵp llywio rhanbarthol.

#### 4.8 **Gwybodaeth o ran Rhagolygon**

Un o'r prif bryderon i ymgeiswyr yw cael y gallu i ddeall pa mor hir yw'r amser aros cyfredol. Gall reoli disgwyliadau clir leihau rhwystredigaeth a darparu gwell wybodaeth i aelwydydd reoli eu hamgylchiadau tai. Mae gwybodaeth yn **Atodiad 4** ar amseroedd aros ar sail profiad gwirioneddol mewn prydles diweddar. Bwriad hwn yw bod yn ganllaw gan bod y data ar sail amseroedd aros ar gyfartaledd a gall y rhain amrywio yn ddibynnol ar y math o eiddo ac ardal.

Ar nodyn cadarnhaol, mae rhaglen adeiladu newydd cymdeithasol a fforddiadwy yn ychwanegol i gynlluniau adeiladau newydd y Cyngor ei hun. Mae gwybodaeth am y rhaglen wedi'i atodi yn **Atodiad 5**.

#### 4.9 **Adolygiad Archwilio Mewnol**

Mae SARTH wedi bod yn destun adolygiad archwilio mewnol a gwblhawyd ym mis Medi 2019. Mae'r archwiliad wedi rhoi lefel Sicrwydd Canolig. Bydd adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i'r Llywodraethu Corfforaethol yn yr hydref.

Y prif argymhelliad yw'r angen am fwy o gytundebau ysgrifenedig ffurfiol i gadarnhau rolau, cyfrifoldebau a pherthynas rhwng y trefniadau Grŵp Llywio Rhanbarthol, Grŵp Gweithredol a phartneriaethau lleol.

Dylid nodi bod llywodraethu cryf ar gyfer y bartneriaeth yn arbennig gan fod yr uwch reolwyr yn cynrychioli'r partneriaid ar lefel grŵp llywio megis Rheolwr Gyfarwyddwr Cartrefi Conwy, Dirprwy Brif Weithredwr Cymdeithas Tai Wales & West, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Preswyl yn Nhau Clwyd Alyn, Pennaeth Tai Grŵp Cynefin yn ogystal â'r Swyddog Arweiniol Tai Cymunedol Sir Ddinbych.

#### 4.10 **Bodlonrwydd Cwsmeriaid**

Mae gennym ychydig o adborth gan gwsmeriaid ar y broses ceisiadau. Cesglir hyn pan fydd ymgeiswyr yn symud i'r cartref newydd. Mae bodlonrwydd o ran y broses ymgeisio yn 88% ar hyn o bryd a sylwadau ynghylch anfodlonrwydd o ran hyd amser mae'n rhaid aros am gartref. Rydym yn cydnabod bod arolwg o ymgeiswyr tra eu bod

ar y gofrestr tai, a dal heb gael cynnig cartref, yn rhoi gwybodaeth mwy ystyriol i ni. Felly mae arolwg llawn o ymgeiswyr cyfredol sydd ar y gofrestr tai wedi'i gynllunio ar gyfer dechrau 2020.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae Tai a Chymunedau Cryf yn flaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Nid oedd angen asesiad o'r effaith ar gyfer yr adroddiad hwn, gan nad oedd unrhyw newidiadau wedi'u cynnig.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Darparwyd gwybodaeth am SARTH mewn cyfarfod briffio'r cyngor ym mis Mehefin 2019.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau a chynnal a chadw i dai'r cyngor wedi'u cynnwys o fewn Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai (HRA). Cymeradwywyd y cynllun ar gyfer 2019/20 gan y Cabinet ym mis Ionawr 2019.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae dyletswydd ar y Cyngor i gynnal cofrestr o angen o ran tai ac i sicrhau bod tai yn cael eu dyrannu yn unol â'r polisi a gyhoeddwyd.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2 Mae Adran 7.4.2(b) o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi pwerau'r Pwyllgor Craffu o ran amcanion y polisi, targedau perfformiad a/neu feysydd gwasanaeth penodol, a mae Adran 7.4.2(e) yn nodi y gall y Pwyllgor Craffu adolygu a chraffu'r perfformiad cyrff cyhoeddus eraill yn yr ardal, a'u gwahodd i annerch y Pwyllgor Craffu ynghylch eu gweithgareddau a pherfformiad.

**Swyddog Cyswllt:**

Swyddog Arweiniol - Tai Cymunedol

Ffôn: 01824 712931

# Datrysiadau Tai Sir Ddinbych a Cofrestr Tai Sir Ddinbych

## Y Polisi Dyraniad Tai Cyffredin





## Cynnwys

|                                                                                                                                |    |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----|
| Blychau Gwybodaeth .....                                                                                                       | 3  |
| Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol yng Nghonwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint.....                                                  | 4  |
| RHAN 1 – DATGANIAD POLISI .....                                                                                                | 5  |
| 1. Cyflwyniad.....                                                                                                             | 5  |
| 1.1 Nodau ac Amcanion .....                                                                                                    | 5  |
| 1.2 Cyd-destun Cyfreithiol.....                                                                                                | 6  |
| 1.3 Rolau partneriaid.....                                                                                                     | 6  |
| 1.4 Cydraddoldeb .....                                                                                                         | 6  |
| 1.5 Rheoli Gwybodaeth.....                                                                                                     | 7  |
| 1.6 Monitro ac adolygu Polisi Dyrannu .....                                                                                    | 7  |
| 1.7 Polisiâu Gosod Lleol. ....                                                                                                 | 8  |
| 2. Y Gofrestr Tai.....                                                                                                         | 8  |
| 2.1 Y Gofrestr .....                                                                                                           | 8  |
| 2.2 Pwy all wneud cais?.....                                                                                                   | 9  |
| 2.3 Pwy ellir ei gynnwys ar aelwyd yr ymgeisydd? .....                                                                         | 9  |
| 2.4 Ceisiadau i Symud .....                                                                                                    | 9  |
| 2.5 Ceisiadau gan Gyflogeion Partner Sefydliadau, Aelodau Etholedig a’u perthnasau teuluol agos .....                          | 9  |
| 2.6 Ceisiadau i addasu tenantiaethau tai cymdeithasol presennol .....                                                          | 10 |
| 3. Gwneud cais am Lety .....                                                                                                   | 10 |
| 3.1 Gwneud Cais.....                                                                                                           | 10 |
| 3.2 Opsiynau Tai.....                                                                                                          | 10 |
| 3.3 Cymhwysedd.....                                                                                                            | 11 |
| 3.4 Dewis a Dymuniad.....                                                                                                      | 11 |
| 3.5 Cymorth i wneud cais.....                                                                                                  | 11 |
| 3.6 Amserlenni penderfynu.....                                                                                                 | 12 |
| 3.7 Hysbysu am benderfyniad.....                                                                                               | 12 |
| 3.8 Hawl yr ymgeisydd i gael ei hysbysu, i ofyn am adolygiad ac i wneud cwyn .....                                             | 12 |
| 3.9 Gwneud cais i weld pa wybodaeth a ddelir ar gais am dai .....                                                              | 12 |
| 3.10 Gofyn am adolygiad o benderfyniad mewn perthynas âblaenoriaeth ymgeisydd ar y gofrestr tai, neu unrhyw ddyraniad tai..... | 12 |
| 3.11 Gofyn am adolygiad o benderfyniad a wneir mewn perthynas a phenderfyniad y tu hwnt i gwmpas y polisi hwn .....            | 13 |
| 3.12 Cwyno yngylch sut y deliwyd â chwyn .....                                                                                 | 13 |
| 3.13 Gwybodaeth ffug neu gamarweiniol.....                                                                                     | 13 |
| 3.14 Diweddarau cais.....                                                                                                      | 13 |



|                                                                                       |    |
|---------------------------------------------------------------------------------------|----|
| 3.15 Diweddarau'r gofrestr.....                                                       | 13 |
| 3.16 Tynnu ceisiadau oddi ar y gofrestr.....                                          | 13 |
| RHAN 2 – Y CYNLLUN BANDIO .....                                                       | 15 |
| 4.1 Bandiau Blaenoriaethol.....                                                       | 15 |
| 4.3 Angen am Dai – Ffafiaeth Resymol.....                                             | 16 |
| 4.4 Angen Brys am Dai .....                                                           | 17 |
| 4.5 Angen am Dai .....                                                                | 17 |
| 4.6 Blaenoriaeth ostyngedig .....                                                     | 17 |
| 4.7 Dim Blaenoriaeth .....                                                            | 18 |
| RHAN 3 - DYRANNU.....                                                                 | 26 |
| 5. Dyrannu eiddo.....                                                                 | 26 |
| 5.1 Dyrannu Eiddo yn ôl blaenoriaeth bandio ac amser aros.....                        | 26 |
| 5.2 Cyfateb ymgeiswyr ac eiddo .....                                                  | 26 |
| 5.3 Cadarnhau aelodau'r aelwyd .....                                                  | 26 |
| 5.4 Ceisiadau dyblyg.....                                                             | 26 |
| 5.5 Cyfansoddiad aelwyd a hawl am ystafelloedd gwely.....                             | 26 |
| 5.6 Ymgeiswyr Digartref y mae dyletswyd digartrefedd statudol yn ddyledus iddynt..... | 28 |
| 5.7 Ymgeiswyr 16 ac 17 oed.....                                                       | 28 |
| 5.8 Ymgeiswyr Hŷn.....                                                                | 28 |
| 5.9 Ymgeiswyr sy'n Sipsiwn a Theithwyr.....                                           | 29 |
| 5.10 Ymgeiswyr sy'n cael eu lletya mewn gofal neu dai â chymorth cymeradwyedig .....  | 29 |
| 5.11 Aelwydydd ymgeiswyr sydd angen eiddo wedi addasu neu eiddo hygyrch.....          | 29 |
| 5.12 Gwirio.....                                                                      | 29 |
| 5.13 Derbyn cynnig .....                                                              | 30 |
| 5.14 Derbyn cynnig .....                                                              | 30 |
| 5.15 Gwrthod cynnig.....                                                              | 30 |
| 5.16 Darparaeth Tai Arbenigol.....                                                    | 30 |
| 5.17 Ymgeiswyr sy'n destun trefniadau amddiffyn y cyhoedd .....                       | 31 |
| 5.18 Cyfranogiad Aelodau'r Cyngor .....                                               | 31 |
| 5.19 Dyraniadau gan Ddarparwyr Tai .....                                              | 31 |



## Blychau Gwybodaeth

|                                                       |    |
|-------------------------------------------------------|----|
| BLWCH A Cymhwysedd ar gyfer Dyraniad Tai Cymdeithasol | 15 |
| BLWCH B Cysylltiad Lleol                              | 17 |
| BLWCH C Angen Brys am Dai                             | 20 |
| BLWCH D Angen am Dai                                  | 22 |
| BLWCH E Blaenoriaeth Ostyngedig                       | 25 |

**Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd mewn Saesneg, a gall fod ar gael mewn fformatau eraill ar gais.**

**Mehedin 2018**



## Y Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol yng Nghonwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint

Mae'r prif landlordiaid cymdeithasol sy'n gweithredu yng Nghonwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint wedi dod at ei gilydd, gyda'r Awdurdodau Lleol, er mwyn ffurfio partneriaeth er mwyn rheoli ceisiadau am a dyrannu tai cymdeithasol.

Y partneriaid yn y cynllun yw

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir y Fflint
- Cartrefi Conwy
- Cartrefi Cymunedol Gwynedd
- Cymdeithas Tai Gogledd Cymru
- Grŵp Cynefin
- Wales and West Housing Association
- Cymdeithas Tai Clwyd Alyn
- Cymdeithas Tai Tŷ Glas, rhan o Grŵp Pennaf

Mae'r holl bartneriaid yn cytuno bod yna alw mawr am dai rhent yn y rhanbarth a dim digon o lefydd gwag i fodloni'r galw. Mae'n rhaid i ni fod yn realistig am hynny. Mae hynny'n golygu bod angen i ni wneud dau beth:

I ddechrau byddwn yn darparu'r cyngor a'r wybodaeth orau, mwyaf defnyddiol a chyson i bawb a ddaw atom yn chwilio am dai. Rydym yn amcanu at helpu cwsmeriaid wneud y dewis mwyaf gwybodus ynghylch sut mae canfod cartref er mwyn bodloni eu hanghenion. Mae'n rhaid i'r cyngor hwn gynnwys yr holl ystod o opsiynau tai fforddiadwy, yn cynnwys tai cymdeithasol, llety rhent preifat, perchnogaeth a dewisiadau eraill.

Yn ail, byddwn yn dyrannu ein stoc tai mewn ffordd dryloyw, teg, cyson a hygyrch, sydd yn blaenoriaethu'r bobl yn ein cymunedau yn unol â'u hanghenion tai ac sydd yn bodloni ein gofynion cyfreithiol.

Gan weithio gyda'n gilydd at y dibenion hynny, gallwn rannu ein cryfderau ac ymarfer dda a gosod y cwsmer wrth galon popeth a wnawn. Byddwn yn symleiddio'r llwybr mynediad at gyngor a thai gydag un diben clir: helpu pobl i ganfod cartref i fodloni eu hanghenion.



## RHAN 1 - DATGANIAD POLISI

### 1. Cyflwyniad

#### 1.1 Nodau ac Amcanion

Mae'r ddogfen hon yn nodi sut y bydd pob cais am dai cymdeithasol yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer dyraniadau yng Nghonwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint.

Mae tai cymdeithasol y dai a ddarperir gan rai cynghorau lleol a sefydliadau cofrestredig di-elw. Mae lefelau rhent, safonau eiddo a safonau rheoli yn cael eu rheoleiddio gan y llywodraeth.

Mabwysiadwyd y polisi dyrannu hwn gan y prif landlordiaid cymdeithasol sydd yn gweithredu yn siroedd Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint.

Y partneriaid yn y cynllun yw

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir y Fflint
- Cartrefi Conwy
- Cymdeithas Tai Gogledd Cymru
- Grwp Cynefin
- Wales and West Housing Association
- Cymdeithas Tai Clwyd Alyn
- Cymdeithas Tai Tŷ Glas, rhan o Grŵp Pennaf
- Cartrefi Cymunedol Gwynedd

Mae'r Partneriaid yn cytuno i flaenoriaethu ymgeiswyr ac i ddyrannu tai cymdeithasol yn yr un modd. Bydd pob Sir yn dal ei gofrestr ymgeiswyr ei hun. Gall ymgeiswyr ymgeisio am dai mewn gwahanol Siroedd, ond ni fydd ymgeiswyr yn cael yr un flaenoriaeth o anghenraid ym mhob ardal, oherwydd na fydd ganddynt gysylltiad lleol â phob ardal efallai.

Amcanion allweddol y polisi yw ei fod yn-

- helpu i fodloni'r angen am dai yng Nghonwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint
- rhoi blaenoriaeth i'r rhai sydd â'r angen mwyaf am dai ac sydd â'r cysylltiad cryfaf â'r ardal y maent yn ymgeisio ar ei chyfer
- hawdd i ymgeiswyr a staff ei ddeall
- blaenoriaethu ymgeiswyr mewn amgylchiadau cyffelyb yn gyson
- galluogi'r holl ymgeiswyr i gael eu hystyried gan bob darparwr tai cymdeithasol gydag un cais yn unig
- bodloni dewisiadau ymgeiswyr cymaint â phosibl
- gwneud y defnydd gorau o'r stoc tai
- ystyried amgylchiadau lleol
- rhoi cyngor i ymgeiswyr am eu holl opsiynau tai
- rhoi cymorth i ymgeiswyr wneud cais fel sy'n ofynnol





## 1.2 Cyd-destun Cyfreithiol

Mae'r polisi dyrannu yn bennaf yn cael ei reoli gan Ddeddf Tai 1996 a Chod Canllawiau ar Ddigartrefedd a Dyrannu 2016 ac Offerynnau Statudol Cymru 2014 Rhif 2603 (w. 257) - Tai Cymru - Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysra) (Cymru) 2014.

Mae deddfwriaeth berthnasol arall yn cynnwys

- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

## 1.3 Rôl partneriaid

- Cyngorau

Y Cyngorau yn y bartneriaeth yw Awdurdodau Tai Lleol y mae'n ofynnol iddynt o dan y gyfraith i gyflawni dyletswyddau a swyddogaethau sy'n gysylltiedig â thai. Mae ganddynt rôl i sicrhau bod Tai Cymdeithasol yn opsiwn tai effeithiol i bobl ar incwm isel na allant rhentu na phrynu'n breifat. Mae'n rhaid i bob Cyngor yn y bartneriaeth sicrhau bod eiddo tai cymdeithasol yn eu hardal yn cael eu dyrannu yn unol â'r polisi hwn.

Mae'n rhaid i'r Cyngorau sicrhau bod y polisi dyrannu yn deg. Mae tegwch yn cynnwys trin pob cais mewn ffordd gyson, gan sicrhau bod gan bob ymgeisydd gyfle cyfartal i wneud cais, ac mewn ffordd sydd yn addas i'w hanghenion personol.

Fel y gall pawb weld bod dyrannu'n deg, bydd gwybodaeth am sut mae eiddo yn cael eu dyrannu yn cael ei chyhoeddi ar wefannau'r Cyngor, a bydd yna wiriadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau yn arwain at ganlyniadau teg.

Mae'r Cyngorau yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr tai cymdeithasol er mwyn cynllunio datblygiadau tai newydd a'r defnydd gorau o stoc tai. Mae'r Cyngorau yn monitro gweithgaredd landlordiaid cymdeithasol er mwyn sicrhau y cedwir at y safonau a bod y dyrannu'n deg.

Gall unrhyw Gyngor ddirprwyo'r dasg o weinyddu'r gofrestr tai. Bydd y sefydliad fydd yn gweithredu fel gweinyddwr y gofrestr yn cael ei fonitro gan y Cyngor er mwyn sicrhau bod penderfyniadau mewn perthynas â bandio a dyrannu yn bodloni'r safonau gofynnol. Gall gweinyddwr y gofrestr fod yn ddarparwr tai cymdeithasol.

- Darparwyr Tai

Mae gan ddarparwyr tai nad ydynt yn gyngorau ddyletswydd i gydweithredu ag Awdurdodau Lleol er mwyn cefnogi cyflawni amcanion tai penodol e.e. atal a gwella digartrefedd. Mae'r darparwyr tai wedi cytuno i ddyrannu eu heiddo gwag yn unol â'r polisi hwn.

## 1.4 Cydraddoldeb

Mae'r holl bartneriaid yn ymrwymedig i wasanaethu pob ymgeisydd yn deg ac i weithio'n gadarnhaol er mwyn osgoi gwahaniaethu ar sail oedran, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, cenedligrwydd, anabledd neu darddiad ethnig.

Er mwyn i ni allu monitro dyraniadau o ran tegwch, gofynnir i'r ymgeiswyr ddarparu manylion: oedran, anabledd, rhywedd a hil.



Mae'r holl bolisiâu a newidiadau i bolisiâu yn cael eu hasesu er mwyn sicrhau nad oes yna unrhyw effaith negyddol na ellir ei gyfiawnhau ar rannau o'n cymuned.

Mae'n ofynnol i bob partner fodloni Safonau'r Iaith Gymraeg 2015. Mae ymgeiswyr yn cael eu hannog i ddefnyddio naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg. Gall ymgeiswyr fynegi ym mha un o'r ddwy iaith y maent yn dymuno derbyn gohebiaeth.

Ar gyfer ymgeiswyr sy'n gofyn am wybodaeth mewn fformatau eraill e.e. print bras, fersiynau sain etc., bydd trefniadau yn cael eu gwneud i fodloni eu hanghenion.

Bydd ymgeiswyr arfaethedig sydd angen cymorth i gwblhau'r broses ymgeisio yn cael cymorth, yn unol â'u cais, pan ofynnir am hynny.

Nid yw'r broses ymgeisio yn golygu bod angen i ymgeisydd lenwi ffurflen. Byddir yn siarad ag ymgeiswyr dros y ffôn, neu wyneb yn wyneb yn ei swyddfeydd, neu mewn amgylchiadau eithriadol, mewn man arall e.e. ysbyty, drwy apwyntiad.

### 1.5 Rheoli Gwybodaeth

Bydd gwybodaeth a roddir gan ymgeiswyr yn gyfrinachol ac yn cael ei chadw'n ddiogel.

Fodd bynnag, byddir yn gofyn i ymgeiswyr ganiatáu i'w gwybodaeth ymgeisio gael ei rhannu fel y gall yr holl bartneriaid ystyried eu cais.

Gall ymgeiswyr wneud cais i gael copi o wybodaeth a ddelir gan bartneriaid am eu cais, fydd yn cynnwys gwybodaeth a ddarperir gan drydydd parti onid oni bai fod yna amgylchiadau eithriadol pan fo raid gwarchod hunaniaeth y trydydd parti dan sylw. O dan amgylchiadau eithriadol o'r fath, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i fynegi'r wybodaeth a gafwyd gan drydydd parti i'r ymgeisydd ar ffurf wedi ei grynhoi.

### 1.6 Monitro ac Adolygu Polisi Dyrannu

Mae'r Polisi Dyrannu wedi ei fabwysiadu ac yn destun cymeradwyaeth aelodau'r Cyngor yn yr Awdurdodau Lleol unigol.

Mae Byrddau'r partner Gymdeithasau Tai wedi ymrwymo i'r polisi. Mae'r Byrddau yn sicrhau bod y polisi yn bodloni amcanion cymdeithasol eu sefydliadau. Mae'n rhaid i bob darparwr Tai adrodd ar ei weithgareddau i'w Fwrdd llywodraethu a rheoleiddiwr y llywodraeth.

Mae uwch swyddogion y Cyngor a sefydliadau darparu tai yn cyfarfod â'i gilydd fel sy'n ofynnol er mwyn ffurfio Pwyllgor Llywio. Mae'r Pwyllgor hwn yn ffurfiol yn cymeradwyo addasiadau cynlluniedig i'r polisi a argymhellir gan y Panel Gweithredu. Mae'r Panel Gweithredu yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod unrhyw agwedd o weithredu a darparu'r polisi dyrannu.

Petai angen gwneud addasiadau mawr i'r polisi, ni fydd yr addasiad yn cael ei wneud heb ymgynghori.

Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal â phartneriaid er mwyn trafod penderfyniadau gweithredol, systemau rheoli gwybodaeth, ac achosion cymhleth er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol ar draws y darparwyr.

Bydd gwybodaeth ystadegol yn cael ei hadrodd yn flynyddol a'i chyhoeddi ar wefannau Awdurdodau Lleol.



## 1.7 Polisiâu Gosod Lleol

Mae'r polisi yn cydnabod y gall partneriaid ddymuno cynnwys polisiâu a ddyluniwyd i daclo materion tai lleol drwy ddefnyddio polisiâu gosod lleol. Bydd yr holl bolisiâu gosod lleol yn seiliedig ar sail gadarn o dystiolaeth. Mae enghreifftiau o faterion tai lleol all fod angen polisiâu gosod lleol yn cynnwys:

- Taclo ymddygiad gwrthgymdeithasol lleol
- Cywiro tanfeddiannu neu orlenwi
- Hwyluso cyflogaeth tenantiaid drwy symudiadau sy'n gysylltiedig â swyddi
- Creu cymuned addas ar ddatblygiadau tai newydd
- Helpu pobl i aros yn agos i'w cymunedau gwledig eu hunain

Bydd polisiâu gosod lleol yn cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Leol priodol a byddant yn cael eu hasesu ar gyfer tegwch a chydaddoldeb cyfleoedd. Gall polisiâu gosod lleol ganiatáu trosglwyddo tenantiaid cymdeithasol presennol hyd yn oed pan nad oed ganddynt flaenoriaeth o dan y cynllun dyrannu.

Gall ond gosod rhai eiddo, fel arfer mewn lleoliadau a ddiffinnir, pan fyddant yn destun meini prawf meddiannaeth ychwanegol, a'u bod yn destun Ymrwymiad Cynllunio o dan a106 Deddf Cynllunio Tref a Gwlad 1990, er enghraifft mewn ardaloedd adfywio, neu mewn achosion prin, ar ddatblygiadau newydd.

Mae rhestr o gynlluniau tai sydd â Pholisiâu Dyrannu Gosod Lleol ar gael ar Wefannau'r Cynghorau, [LINK](#)

## 2. Y Gofrestr Tai

### 2.1 Y Gofrestr

Mae'r gofrestr tai yn rhestr o aelwydydd sydd angen tai. Mae gan bob Awdurdod Lleol gofrestr. Mae'r gofrestr yn cael ei threfnu yn unol â'r polisi hwn. Mae aelwydydd ar y gofrestr yn cael eu blaenoriaethu mewn bandiau yn unol ag angen a chysylltiad lleol, ac o fewn bandiau yn ôl amser aros. Mae darparwyr tai sydd â llefydd gwag yn troi at y gofrestr i weld pwys â'r angen mwyaf sydd wedi bod yn disgwyl hiraf.

Mae penderfyniadau ynghylch ble gosodir aelwyd ar y gofrestr yn cael eu gwneud gan weinyddwyr y gofrestr.

Mae'r gofrestr yn cael ei diweddarau. Bydd aelwydydd ar y gofrestr yn cael eu hadolygu bob 6 mis, neu pan fo amgylchiadau yn newid. Bydd ymgeiswyr newydd yn ymuno â'r rhestr pan fo'u cais yn gyflawn. Gall ymgeiswyr symud o un band blaenoriaethol i'r llall. Y dyddiad pan fo ymgeisydd yn cael ei symud i fand â mwy o flaenoriaeth fydd y dyddiad perthnasol ar gyfer pennu eu blaenoriaeth yn y band hwnnw. Os bydd ymgeisydd yn symud i fand â blaenoriaeth is, dyddiad eu cais gwreiddiol fydd y dyddiad perthnasol.

Yr ymgeiswyr sy'n gyfrifol am ddiweddarau ei cais. Gall methu â gwneud hynny arwain at lai o flaenoriaeth.

Os na fydd ymgeiswyr sydd ag angen brys am dai yn cael eu hailgartrefu o fewn 3 mis, byddir yn ystyried a fydd y stoc tai presennol yn gallu bodloni anghenion yr aelwyd. Mewn achosion pan fo'r gofynion tai yn gymhleth ac na all y stoc presennol eu diwallu, bydd Partneriaid yn ystyried opsiynau ar gyfer caffael, addasu neu gomisiynu eiddo er mwyn bodloni'r angen.



Gall tenantiaid arfaethedig a dderbynnir ar y gofrestr oherwydd nad oes angen tai arnynt wneud cais am dai gwag pan nad oes galw gan ymgeiswyr ar y gofrestr. Mae llefydd gwag o'r fath yn cael eu hysbysebu gan y darparwyr tai ar y farchnad agored e.e. mewn datrysiadau tai gan ddefnyddio safleoedd rhentu eiddo ar-lein neu wefannau'r Cynghorau. Gall ymgeiswyr na dderbynnir ar y gofrestr ailymgeisio ar unrhyw adeg os bydd eu hamgylchiadau yn newid.

## 2.2. Pwy all wneud Cais?

Gall unrhyw un dros 16 oed wneud cais am dai cymdeithasol, naill ai fel tenant unigol neu ar y cyd. Bydd gan aelwydydd â mwy nag un person ymgeisydd arweiniol. Rhan o'r broses ymgeisio fydd gwirio nad yw aelwyd yr ymgeisydd yn cynnwys rhywun anghymwys oherwydd eu statws mewnfudo neu oherwydd eu bod yn anaddas i fod yn denant o ganlyniad i ymddygiad annerbyniol difrifol. Bydd angen i bob ymgeisydd ddangos eu bod yn bwriadu meddiannu unrhyw ddyraniad tai cymdeithasol fel eu hunig neu brif gartref.

## 2.3 Pwy ellir ei gynnwys fel rhan o aelwyd yr ymgeisydd?

Gall aelwyd ymgeisydd gynnwys:

- a) aelodau teulu'r ymgeisydd sydd fel arfer yn byw gyda hwy,
- b) unrhyw berson arall y disgwylir iddo fod yn byw gyda nhw o fewn rheswm.

Bydd amgylchiadau plentyn sydd yn ddibynnol ar yr ymgeisydd a rhywun nad yw'n byw gyda'r ymgeisydd yn cael eu hystyried. Er enghraifft, pan fo trefniant rhiantu ar y cyd yn bodoli, ni fydd plentyn sydd yn cael llety rhesymol gan riant arall yn cael ei gynnwys o fewn aelwyd yr ymgeisydd.

## 2.4 Ceisiadau am Drosglwyddiad

Mae'r polisi hwn yn gymwys i denantiaid presennol sy'n amcanu at newid llety. Bydd angen i denantiaid presennol sydd eisiau symud wneud cais am ddyraniad newydd drwy'r gofrestr. Bydd yr un rheolau parthed angen am dai yn cael eu cymhwyso er mwyn pennu eu blaenoriaeth.

## 2.5 Ceisiadau gan Gyflogeion partner Sefydliadau, Aelodau Etholedig a'u perthnasau teuluol agos

Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddatgan os ydynt yn (neu unrhyw un ar eu haelwyd), neu os ydynt yn berthynas agos i

- Gyflogeion partner awdurdod lleol neu ddarparwyr tai;
- Aelodau Etholedig o'r Cyngor; neu
- Aelodau o Gymdeithas Tenantiaid neu Drigolion.
- Mae'r canlynol yn aelodau teulu agos at ddiben y polisi hwn:
- Cymar neu bartner sifil
- Partneriaid sy'n cyd-fyw (yn cynnwys partneriaid o'r un rhyw)
- Rhiant
- Mab/merch
- Brawd/Chwaer
- Taid/Nain/Wŷyr/Wyres
- Modryb/Ewythr
- Hanner Perthnasau neu Lys Berthnasau

Pan fo 2.5 yn gymwys, ni fydd y polisi dyrannu yn trin ymgeiswyr yn wahanol, ond bydd eu ceisiadau yn destun adolygiad er myn sicrhau y dilynir y polisi ym mhob achos.



## 2.6 Ceisiadau i addasu tenantiaethau tai cymdeithasol sy'n bodoli

Nid yw'r polisi dyrannu hwn yn cynnwys sefyllfaoedd pan fo tenant presennol angen addasu ei gytundeb tenantiaeth tai cymdeithasol presennol. Er enghraifft, ychwanegu partner i'r cytundeb.

## 3. Ymgeisio am Lety

### 3.1 Gwneud Cais

Bydd gwybodaeth am sut mae cysylltu â gweinyddwyr y gofrestr tai ym mhob Cyngor yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor ac mewn manau cyhoeddus eraill.

Nid oes yna ffurflen i'w llenwi wrth gwneud cais am dai o dan y Polisi Dyrannu Cyffredin.

Gall ymholwyr fynd i swyddfeydd y Cyngor eu hunain, neu drafod eu hanghenion dros y ffôn. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir gwneud trefniadau i ymweld ag ymgeiswyr arfaethedig e.e. mewn ysbyty.

Bydd pob ymholwr yn cael ei holi am ei amgylchiadau mewn cysylltiad â thai. Rydym yn galw'r broses honno yn 'Frysbennu'. Pan allai ymgeisydd fod yn ddigartref neu mwn perygl o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod, bydd eu cais yn rhan o'r gwasanaeth a gynigir gan yr Awdurdod Lleol er mwyn atal a gwella digartrefedd.

Mae yna berthynas agos rhwng gweinyddu dyrannu tai cyhoeddus a darparu gwasanaethau i'r rhai sy'n wynebu neu mewn perygl o wynebu digartrefedd. Gall staff o'r tîm digartrefedd a/neu dîm darparwr tai fod yn ymwneud â'r achos.

### 3.2 Opsiynau Tai

Bydd yr holl ymholwyr yn derbyn cyngor ynghylch yr holl opsiynau tai allai fod yn addas iddynt. Gallai hynny gynnwys cyngor am

- Gynlluniau perchnogaeth fforddiadwy
- Cynlluniau rhent canolradd
- Rhentu preifat
- Cynlluniau i helpu pobl symud allan o'r ardal
- Cynlluniau gwella'r cartref neu wasanaethau addasu sydd yn galluogi pobl i aros yn eu cartref presennol
- Tai â cymorth neu gymorth yn y cartref
- Tai lloches neu dai gofal ychwanegol
- Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr sydd â lleiniau parhaol

Bydd ymholwyr yn derbyn gwybodaeth am y broses ymgeisio a sut y dyrennir cartrefi

Bydd y rhai sy'n dymuno gwneud cais am dai cymdeithasol yn cael cyngor ar

- a fyddant yn debygol o gael blaenoriaeth ar gyfer tai
- a fydd tai sy'n addas ar gyfer eu hanghenion yn debygol o fod ar gael iddynt yn eu dewis ardaloedd a
- faint o amser mae'n debygol o'i gymryd nes bydd tai o'r fath ar gael



### 3.3 Cymhwysedd

Bydd pob ymgeisydd ac aelodau eu haelwydydd yn cael eu gwirio er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys i dderbyn dyraniad tai cymdeithasol.

Mae Deddf Tai 1996, fel y'i diwygiwyd gan ddeddfwriaeth mwy diweddar (Deddf Tai (Cymru) 2014) yn nodi na ddylai Awdurdod Lleol ddyrannu tai i berson anghymwys.

Gall ymgeiswyr fod yn anghymwys oherwydd eu statws mewnfudo neu oherwydd ymddygiad annerbyniol. Gweler Blwch A.

Bydd angen i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o'u hunaniaeth a'u hymddygiad blaenorol.

Bydd gweinyddwyr y Gofrestr yn gweithredu yn rhesymol ac yn ystyried pob cais ar eu rhinweddau. Bydd y rhai fydd yn penderfynu yn ystyried amgylchiadau personol yr ymgeisydd ( ac amgylchiadau aelwyd yr ymgeisydd), yn cynnwys anghenion iechyd a meddygol, anghenion dibynyddion ac unrhyw ffactorau sy'n berthnasol i'r cais. Yn benodol, bydd y partneriaid yn ystyried unrhyw amgylchiadau lliniarol mewn perthynas ag anableded meddyliol neu gorfforol, neu iechyd meddwl.

Efallai na fydd ymddygiad annerbyniol blaenorol yn cyfiawnhau penderfyniad i drin yr ymgeisydd fel rhywun anghymwys pan fo'r ymgeisydd yn gallu dangos bod yr ymddygiad wedi gwella.

Bydd ymgeiswyr nad yw eu hymddygiad annerbyniol yn bodloni'r meini prawf ar gyfer eu gwneud yn anghymwys, yn gallu ymgeisio am dai, ond efallai y bydd eu haelwydydd yn cael llai o flaenoriaeth nes bod gweinyddwr y gofrestr yn fodlon bod eu hymddygiad wedi gwella i'r graddau na fydd yn effeithio'n niweidiol ar eu tenantiaeth.

Bydd ymgeiswyr yr ystyrir eu bod yn anghymwys i dderbyn tai yn cael cyngor ac arweiniad mewn perthynas â'u hopsiynau tai gan y Tîm Opsiynau Tai, pan fyddant yn cysylltu â'r gwasanaeth.

Bydd ymgeiswyr yr ystyrir eu bod anghymwys i dderbyn tai yn cael eu hysbysu am y penderfyniad a'r rhesymau yn ysgrifenedig. Byddant hefyd yn cael eu hysbysu m eu hawl i ofyn am adolygiad o'u hawl yn y dyfodol i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad a wneir ar ôl yr adolygiad.

Gall ymgeiswyr yr ystyrir sy'n anghymwys oherwydd eu hymddygiad annerbyniol ailymgeisio ar unrhyw adeg, ond ni fyddant yn gymwys nes y gallent ddangos bod eu hymddygiad erbyn hyn yn dderbyniol.

### 3.4 Dewis a Dymuniad

Byddir yn ofyn i ymgeiswyr fynegi pa ardal y maent yn dymuno byw ynddi, a'r math o eiddo. Nid oes gan bob ardal dai cymdeithasol. Ni all pob ardal ddarparu eiddo o'r math a ddymunir. Bydd ymgeiswyr yn cael eu hysbysu am argaeledd posibl eiddo pan maent yn ymgeisio, ac ar gais. Gall ymgeiswyr newid eu dymuniad. Fodd bynnag, wrth ystyried addasrwydd eiddo gwag i ymgeiswyr, efallai na fydd yn bosibl bodloni holl ddymuniadau'r ymgeisydd. Bydd dymuniadau ymgeiswyr ar gyfer ardaloedd ble nad oes dim darpariaeth tai cymdeithasol ar hyn o bryd yn cael ei nodi ac yn cael eu hystyried wrth gynllunio datblygiadau newydd.

### 3.5 Cymorth i wneud cais

Bydd partneriaid yn sicrhau y bydd ymgeiswyr ag anghenion cymorth yn cael y cymorth priodol i wneud eu cais. Pan fo angen, bydd partner ddarparwyr tai yn gweithio â gofal cymdeithasol, Cefnogi Pobl, gwasanaethau iechyd ac asiantaethau eraill er mwyn cytuno ar sut mae cefnogi'r ymgeisydd.



### 3.6 Amserlenni Penderfynu

Ar ôl i weinyddwr y gofrestr dderbyn yr holl wybodaeth ategol angenrheidiol, bydd y penderfyniad ynghylch a fydd yr ymgeisydd yn cael ei roi ar y gofrestr neu beidio ac ym mha fand blaenoriaeth, ac yn cael e wneud o fewn 20 diwrnod gwaith.

### 3.7 Hysbysu am Benderfyniad

Bydd ymgeiswyr yn cael eu hysbysu'r ysgrifenedig ynghylch a ydynt wedi cael eu derbyn ar y rhestr neu beidio ac ym mha fand blaenoriaeth y byddant yn cael eu gosod.

### 3.8 Hawl yr ymgeisydd i gael ei hysbysu, i ofyn am adolygiad ac i wneud cwyn

Mae gan yr ymgeisydd hawl i gael ei hysbysu, ar gais, am unrhyw benderfyniad ynghylch ffeithiau ei achos sydd yn debygol o fod, neu sydd wedi cael eu hystyried wrth benderfynu dyrannu llety iddynt neu beidio.

### 3.9 gwneud cais i weld pa wybodaeth a ddelir mewn perthynas â chais am dai

Gall ymgeiswyr ofyn am gopi o'r holl wybodaeth a ddelir gan bartneriaid am eu cais fel 'Cais Mynediad Goddrych'. Bydd hynny yn cynnwys gwybodaeth a ddarperir gan drydydd partion (oni bai fod yna amgylchiadau eithriadol a od rhaid gwarchod hunaniaeth y trydydd parti). Petai angen gwarchod gwybodaeth trydydd parti, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i fynegi gwybodaeth ar ffurf gryno. Fel arfer bydd Cais Mynediad Goddrych am ddim. Gall ceisiadau diangen, di-sail ac ailadroddus arwain at godi ffi.

### 3.10 Gwneud cais i adolygu penderfyniad mewn perthynas â blaenoriaeth ymgeisydd ar y gofrestr tai, neu unrhyw ddyraniad tai

Mae gan ymgeisydd hawl i ofyn am adolygiad o unrhyw benderfyniad a wnaethpwyd mewn perthynas â'i gais, yn cynnwys unrhyw benderfyniad:

- a) ynghylch ffeithiau ei achos sydd yn debygol o fod, neu sydd wedi cael eu hystyried wrth benderfynu dyrannu llety iddynt neu beidio;
- b) ynghylch eu cymhwysedd i dderbyn dyraniad tai cymdeithasol;
- c) ynghylch asesu eu cais mewn perthynas â'r cynllun bandio;
- d) mewn perthynas â thynnu ymgeisydd oddi ar y gofrestr
- e) mewn perthynas â lleihau blaenoriaeth;

Bydd gan ymgeiswyr 14 diwrnod i ofyn am adolygiad, ac yn ystod y cyfnod hwnnw byddant yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr dros dro.

Bydd y penderfyniad fydd yn cael ei adolygu yn cael ei ystyried gan swyddog gwahanol neu uwch swyddog y gweinyddwr cofrestr perthnasol. Mae gan y swyddog adolygu 28 diwrnod i ystyried yr amgylchiadau ac i ymateb.

Os nad yw'r ymgeisydd yn fodlon â phenderfyniad y swyddog adolygu, gall y Panel Gweithredol, sydd yn cyfarfod bob mis o leiaf, ystyried y mater. Mae gan y panel hyd at 28 diwrnod i ystyried yr amgylchiadau ac i ymateb.



### 3.11 Gwneud cais i adolygu penderfyniad a wnaethpwyd mewn perthynas â phenderfyniad a wnaethpwyd y tu hwnt i gwmpas y polisi hwn

Mae penderfyniadau a wneir gan barner awdurdod lleol mewn perthynas â chais am gymorth oherwydd bod ymgeisydd yn ddirigartref neu mewn perygl o fod yn ddirigartref, yn destun gweithdrefnau adolygu gwahanol. Bydd ymgeiswyr yn cael eu hysbysu ynghylch sut mae gwneud cais am adolygiad yn y llythyr hysbysu am benderfyniad.

### 3.12 Gwneud cwyn ynghylch sut y deliwyd â chais

Dylai ymgeisydd sydd yn anhapus ynghylch y ffordd y deliwyd â'u cais, neu ymddygiad staff, gwyno drwy ddefnyddio gweithdrefn gwyno y sefydliad sydd yn delio â'u cais. Bydd gwybodaeth am sut mae gwneud hynny ar gael gan y sefydliad dan sylw. Os na fydd ymgeisydd yn fodlon â'r ymateb i gwyn, gallent fynd â'r mater at Ombwdsmon yr Awdurdod Lleol (mae manylion gwneud cwyn o'r fath ar gael gan yr Awdurdod Lleol perthnasol).

### 3.13 Gwybodaeth ffug neu gamarweiniol

Gellir gwrthod cais neu derfynu tenantiaeth ymgeiswyr sydd yn rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol. Mewn rhai achosion gallai hynny hefyd arwain at erlyniad troseddol, dirwyon sylweddola hyd yn oed garchar.

### 3.14 Diweddarau ceisiadau

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw diweddarau eu gwybodaeth.

Mae'n rhaid i'r ymgeiswyr gysylltu â'u Hawdurdod Lleol os, er enghraifft,

- maent yn newid eu gwybodaeth cysylltu: rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost
- os byddant yn symud tŷ,
- mae person yn gadael neu'n ymuno â'r aelwyd;
- mae eu sefyllfa ariannol yn newid
- eu statws mewnfudo yn newid

### 3.15 Diweddarau'r gofrestr

Pan fo ceisiadau yn cael eu hadolygu gan Weinyddwr y Gofrestr, byddir yn cysylltu ag aelwydydd ymgeiswyr er mwyn cadarnhau eu bod yn dal angen tai. Bydd manylion y rhai fydd yn dal mewn angen yn cael ei wirio a bydd eu band blaenoriaeth yn cael ei adolygu.

Efallai y bydd ymgeiswyr sydd yn methu ag ymateb i lythyrau sydd yn gofyn iddynt am eu hangen presennol yn cael eu tynnu oddi ar y gofrestr.

### 3.16 Tynnu ymgeiswyr oddi ar y gofrestr

Gellir tynnu ymgeiswyr oddi ar y gofrestr os

- byddant wedi rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol neu nad ydynt wedi dweud wrth y Bartneriaeth am wybodaeth berthnasol
- maent wedi gwrthod 2 gynnig rhesymol
- nid ydynt yn ateb llythyrau ynghylch adolygu cais o fewn 14 diwrnod

Bydd ymgeiswyr yn cael eu hysbysu yn ysgrifenedig am benderfyniad i'w tynnu oddi ar y gofrestr. Mae ganddynt hawl i ofyn am adolygiad o benderfyniad, a bydd manylion ynghylch sut mae gwneud hynny





yn cael eu nodi yn y llythyr penderfyniad. Ar ôl 14 diwrnod, os na dderbynnir cais am adolygiad, bydd yr ymgeisydd yn cael ei dynnu oddi ar y gofrestr.

Bydd ymgeiswyr yn gallu ailymgeisio, ond gallent gael llai o flaenoriaeth. Dyddiad eu cais fydd dyddiad y cais newydd.

## BLWCH A Cymhwysedd ar gyfer Dyraniad Tai Cymdeithasol

### Ymgeiswyr anghymwys

Mae yna ddau ddsbarth o unigolion anghymwys.

#### 1) Unigolion o dramor

Oni bai fod yr ymgeisydd eisoes yn denant diogel, rhagarweiniol neu sicr mewn tŷ a ddyrannwyd gan awdurdod tai yng Nghymru, bydd ymgeiswyr yn anghymwys os ydynt yn

- destun rheolaeth mewnfudo, oni bai eu bod yn perthyn i grŵp sydd yn caniatáu cymhwysedd iddynt e.e.
- rhai â statws ffoaduriaid; rhai sydd â Gwarchodaeth Dyngarol; a rhai sydd â Chaniatâd dewisol neu Eithriadol i Aros.
- unigolion o dramor nad ydynt yn destun rheolaeth mewnfudo ac nad ydynt fel arfer yn byw yn yr Ardal Deithio Cyffredin (h.y. Y DU, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw ac Iwerddon) (Eithriadau yn gymwys)
- wedi eu gwahardd rhag bod yn gymwys i dderbyn Credyd Cynhwysol neu Fudd-dal Tai o dan Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999,

Mae mwy o wybodaeth i ymgeiswyr ac ymgynghorwyr ar gael yn

Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysra) (Cymru) 2014, a

Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysra) (Cymru) (Diwygiad) 2017

#### 2) Unigolion sydd wedi bod yn gysylltiedig ag ymddygiad annerbyniol difrifol

Os bydd ymgeisydd, aelodau ei aelwyd, neu ei ymwelwyr, wedi bod yn gysylltiedig ag ymddygiad annerbyniol difrifol, mae hynny'n golygu eu bod yn anaddas i fod yn denantiaid i bartner landlord.

Yr unig ymddygiad y gellir ei ystyried fel ymddygiad annerbyniol yw ymddygiad gan yr unigolyn fyddai wedi golygu bod gan yr awdurdod lleol hawl i roi gorchymyn meddiant llwyr, petai'r person wedi bod yn denant diogel i'r awdurdod lleol ar yr adeg honno.

Wrth asesu a yw ymgeisydd y anghymwys oherwydd ymddygiad annerbyniol, bydd y partner landlord yn ystyried:

1. Pan fo yna dystiolaeth o ymddygiad annerbyniol, a oedd yn ddigon difrifol er mwyn rhoi gorchymyn meddiant (sydd yn cynnwys ystyried sail disgresiwn statudol ar gyfer meddiant a chwestiynau ynghylch rhesymolrwydd)?
2. A oedd yr ymddygiad yn ddigon difrifol fel bod yr ymgeisydd neu aelod o'i aelwyd yn anaddas i fod yn denant (sydd yn cynnwys ystyried a roddwyd gorchymyn meddiant yn syth neu y gellid fod wedi rhoi gorchymyn or fath yn hytrach na gorchymyn gohiriedig)?
3. A yw'r ymddygiad yn parhau i fod yn annerbyniol ar yr adeg yn gwneir y cais?



## RHAN 2 - Y CYNLLUN BANDIO

Mae'r polisi hwn yn seiliedig ar yr egwyddor y bydd llefydd gwag yn cael eu dyrannu i ymgeiswyr cymwys sydd angen tai, a'r flaenoriaeth yn cael ei rhoi i aelwyd sydd â chysylltiad lleol.

### 4.1 Bandiau Blaenoriaeth

